Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Yr effaith a gafodd datblygiad proffesiynol staff ar eu harferion addysgu ac ar ddysgu a pherfformiad y myfyrwyr

## Astudiaethau Achos

Hydref 2024



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg

# Contents


Cyflwyniad 1

Crynodebau o’r astudiaethau achos 2

Astudiaeth achos 1: Cynorthwyo darlithwyr sy’n cael eu talu fesul awr i wella dysgu’r myfyrwyr 6

Astudiaeth achos 2: Datblygiad proffesiynol myfyrwyr ôl-raddedig 9

Astudiaeth achos 3: Diwylliant o chwilfrydedd: Ymwreiddio ymchwil-weithredu 13

Astudiaeth achos 4: Defnyddio ymchwil-weithredu i ddatblygu dulliau dysgu ac addysgu effeithiol 17

Astudiaeth achos 5: ‘Sylfaenol, Gwell, Gorau’: Cynorthwyo darpariaeth ddwyieithog ym maes addysg bellach 22

Astudiaeth achos 6: Gwella gallu a hyder wrth ddefnyddio’r Gymraeg drwy ddarpariaeth ddwyieithog 26

Astudiaeth achos 7: Y cynllun ‘Cymraeg Gwaith+ mewn Addysg Uwch’ 33

Astudiaeth achos 8: Dod yn brifysgol sy’n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (TrACE) 36

Astudiaeth achos 9: Gwytnwch: A ddylem ni addysgu hyn fel sgil astudio? 42

Astudiaeth achos 10: Gwallau yn y cynllun: Defnyddio deallusrwydd artiffisial i wella dysgu myfyrwyr 47

Astudiaeth achos 11: Gweld y ffordd ymlaen: Effaith tracio cynnydd a darparu esiamplau o gyflwyno darpariaeth hyblyg 50

Astudiaeth achos 12: Hybu llythrennedd adborth ac ymgysylltiad ymhlith myfyrwyr 57

Astudiaeth achos 13: Cydweithfa Cymru: Rhwydwaith datblygiad proffesiynol 61

Atodiad: Y cyfranwyr at yr astudiaethau achos 65

# Cyflwyniad

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw cael gwell integreiddiad ar draws y sector addysg ôl-16, gyda ffocws clir ar ddangos effaith y profiad addysg drydyddol ar ddatblygiad y myfyrwyr, y gymdeithas a'r economi. Mae cydnabyddiaeth glir o rôl y staff ar draws y sector addysg uwch ac addysg bellach, ac felly hefyd o rôl datblygiad proffesiynol staff o fewn y sefydliadau hynny o ran galluogi'r uchelgais hon. Mae'r astudiaethau achos sydd yn yr adnodd hwn yn tystio i ymrwymiad cryf y staff i ddatblygiad proffesiynol, ar draws y darparwyr addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru, ynghyd â'u penderfynoldeb i wella deilliannau dysgu'r myfyrwyr. Wrth i Gymru symud ymlaen gyda system addysg drydyddol integredig sydd wedi ei hymrwymo i ddysgu ac addysgu o safon uchel, sy'n pwysleisio cydweithrediad er mwyn gyrru a galluogi gwelliant parhaus, bydd yr esiamplau hyn o arferion yn adnodd gwerthfawr, sy'n gyrru arloesiad a gwelliant y profiad y bydd y dysgwr yn ei gael ar draws y sector. Gyda'r dull dysgwr-ganolog clir hwn a ffocws ar ddatblygu mentrau dysgu ac addysgu arloesol, mae'n alinio'n agos â gweledigaeth a blaenoriaethau strategol Medr, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil sydd newydd gael ei sefydlu.

Nod yr astudiaethau achos, a gomisiynwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)[1], yw cefnogi trosglwyddiad dysgu ar draws y staff mewn gwahanol ddarparwyr. Y bwriad yw eu bod nhw'n annog deialog ar ddysgu, addysgu ac ansawdd, o fewn ac ar draws darparwyr. Ym mis Medi 2024, cyflwynwyd nifer o'r astudiaethau achos yng nghynhadledd QAA Cymru '*Gyda'n Gilydd yn Gryfach: Cydweithredu a rhannu arfer ar draws addysg drydyddol yng Nghymru*', a ariennir gan CCAUC.

## Dull cydweithredol

Ym mis Rhagfyr 2023, galwyd ar bob darparwr addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru i gyflwyno astudiaeth achos ddrafft, a hyrwyddwyd hyn hefyd yng nghylchlythyr QAA Cymru, ac mewn amrywiol ddigwyddiadau a chyfarfodydd gyda darparwyr. Gellir cael mathau gwahanol o ddatblygiad proffesiynol - o weithgareddau unigol, anffurfiol a byr i raglenni mwy ffurfiol dan arweiniad y sefydliad - felly, at ddibenion y ddogfen hon, diffinnir datblygiad proffesiynol fel unrhyw weithgaredd a allai ddangos tystiolaeth o ddatblygiad neu newid cadarnhaol mewn perthynas â dysgu ac addysgu o safbwynt y staff a'r dysgwyr.

Pan dderbyniodd QAA y cyflwyniadau drafft, cydweithiodd yn agos â'r cyfranwyr dros y misoedd dilynol i fireinio'r astudiaethau achos. Gall datblygiad proffesiynol fod yn werthfawr o ran siapio hunaniaeth broffesiynol yn ogystal â dylanwadu ar arferion a datblygu hyder, a daeth effaith yr amrywiol fentrau ar y cyfranwyr eu hunain yn gynyddol amlwg drwy'r trafodaethau a gafwyd â nhw. Nod unrhyw fenter datblygiad proffesiynol yn y pen draw, fodd bynnag, yw darparu ffordd effeithiol o drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau i wella deilliannau dysgu'r myfyrwyr (Zeggelaar et al, 2022)[2]. Felly, ynghyd â'r effaith ar hunaneffeithiolrwydd y cyfrannwr, pwysleisir a dangosir tystiolaeth o ddeilliannau dysgu'r myfyrwyr ymhob astudiaeth achos, a thrwy hynny sicrheir agwedd gyson drwy'r adnodd cyfan hwn. Weithiau, mae'r effaith ar fyfyrwyr yn anwybyddol - er enghraifft, gwell ymgysylltiad a chymhelliant, ac mae wedi ei mynegi drwy ddata ansoddol megis dyfyniadau gan y myfyrwyr a'r staff. Mae data meintiol megis ystadegau cadwraeth, canlyniadau arholiadau ac ymatebion i holiaduron wedi eu dyfynnu hefyd fel arwyddion o ddeilliannau dysgu gwell, yn dilyn ymlaen o weithgaredd datblygiad proffesiynol penodol.

---

1 Ar 1 Awst 2024, cafodd rolau a chyfrifoldebau CCAUC mewn perthynas â chyllido, rheoleiddio a sicrhau ansawdd addysg uwch eu trosglwyddo i Medr.

2 Zeggelaar, A; Vermeulen, M a Jochems, W (2022): 'Evaluating effective professional development, Professional Development in Education' 48:5

# Crynodebau o'r astudiaethau achos

Isod mae crynodebau byr o'r 13 astudiaeth achos sydd yn yr adnodd hwn. Gosodwyd astudiaethau achos oedd ar thema debyg at ei gilydd yn fwriadol er cyfleustra - er enghraifft, rhaglenni dysgu proffesiynol sefydliadol i staff wedi eu targedu neu fentrau sy'n ystyried agweddau amrywiol o addysgu cyfrwng Cymraeg. Mae manylion cysylltu'r cyfranwyr i'w gweld yn yr Atodiad. Cafodd rhai o'r mentrau a amlinellir yn yr astudiaethau achos eu hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Dysgu Proffesiynol.

## Astudiaeth achos 1: Cynorthwyo darlithwyr sy'n cael eu talu fesul awr i wella dysgu'r myfyrwyr

Mae **Dr John Deane** yn esbonio sut mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn cefnogi darlithwyr sy'n cael eu talu fesul awr (darlithwyr TFA) drwy sesiynau dysgu proffesiynol. Mae'r Brifysgol yn cyflogi mwy na 150 o ddarlithwyr TFA sy'n addysgu rhwng 4 a 20 awr yr wythnos yn ei Hathrofa Dysgu Canol Dinas sydd wedi ei seilio yn Llundain a Birmingham. Mae effaith gadarnhaol y fenter ar ddeilliannau dysgu'r myfyrwyr, megis cadwraeth a chyrhaeddiad, wedi ei hamlygu drwy ddata meintiol a dyfyniadau gan y staff a'r myfyrwyr.

## Astudiaeth achos 2: Datblygiad proffesiynol myfyrwyr ôl-raddedig

Mae **Annette Edwards** yn amlinellu'r rhaglen Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth (AUMA) sydd wedi ei dylunio i'r rhai hynny sy'n newydd i addysgu neu sydd wedi eu cyflogi fel cynorthwywyr addysgu ôl-raddedig. Mae'r rhaglen wedi ei hintegreiddio i mewn i'r mwyafrif o strategaethau addysgu adrannol ac mae 14 o gyn-fyfyrwyr y rhaglen AUMA sy'n gweithio mewn swyddi academaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi cyfrannu at addysgu ar y rhaglen tra bo eraill wedi dod yn fentoriaid. Mae amrywiaeth o ddyfyniadau'n amlygu ei heffaith gadarnhaol ar ddysgu ac addysgu ar draws y sefydliad.

## Astudiaeth achos 3: Diwylliant o chwilfrydedd: Ymwreiddio ymchwil-weithredu

Mae Bryony Evett Hackfort yn trafod y rhaglen Diwylliant o Chwilfrydedd ac Ymchwil-Weithredu a lansiwyd yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn 2019-20, i roi rhwydwaith diogel a chefnogol i staff er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn gwaith ymchwil wedi'i seilio ar arferion. Mae staff o bob rhan o'r sefydliad yn gwneud cais am safle wedi'i ariannu er mwyn gwneud prosiectau ymchwil-weithredu pwrpasol mewn maes o'u dewis hwy. Darperir enghreifftiau penodol o ymchwil-weithredu a wnaed, ynghyd â'u heffaith ar ddatblygiad proffesiynol yr unigolion ac ar y dysgwyr y maent yn eu haddysgu.

## Astudiaeth achos 4: Defnyddio ymchwil-weithredu i ddatblygu dulliau dysgu ac addysgu effeithiol

Mae **Dr Mary Jacob** yn trafod effaith prosiectau ymchwil-weithredu. Mae prosiectau ymchwil-weithredu yn rhan o'r gwaith cwrs a asesir ar gyfer y Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch (TUAAU) ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae hi'n amlinellu sut mae prosiectau ymchwil-weithredu'n cael eu datblygu ac mae hi'n rhoi enghreifftiau o'r ffordd y mae cyfranogwyr wedi pasio eu dysgu ymlaen, tra bo'r cyfranogwyr eu hunain yn darparu data meintiol ac ansoddol i ddangos tystiolaeth o effaith eu prosiectau ymchwil-weithredu ar ddysgu'r myfyrwyr.

## Astudiaeth achos 5: 'Sylfaenol, Gwell, Gorau': Cynorthwyo darpariaeth ddwyieithog ym maes addysg bellach

Mae **Helen Griffith** yn amlinellu datblygiad erfyn rhagnodol gweledol i gefnogi darpariaeth ddwyieithog ar draws y cyrsiau i gyd yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. Yn rhan o Fframwaith Dysgu Proffesiynol pwrpasol y Colegau, lluniwyd 'Llwybr Dwyieithog', sy'n llwybr datblygiad staff, o amgylch anghenion nifer o feini prawf 'Sylfaenol, Gwell, Gorau'. Mae dyfyniadau gan y tiwtoriaid a'r dysgwyr yn atgyfnerthu'r farn bod yr erfyn yn effeithiol, ac mae'n parhau i gael ei fireinio ymhellach.

## Astudiaeth achos 6: Gwella gallu a hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg drwy ddarpariaeth ddwyieithog

Mae **Amy Lewis** yn amlinellu ei phrofiadau o ddysgu Cymraeg fel tiwtor sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngholeg Penybont. Aeth ati i wneud dysgu proffesiynol yn rhan o fenter Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn meddu ar ryw lefel 'cwrteisi' o sgiliau Cymraeg er mwyn gallu cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hi'n trafod sut, yn dilyn ei phrofiadau, y darparodd fodiwl Mynediad i AU yn ddwyieithog. Mae data o holiaduron myfyrwyr yn dangos effaith gadarnhaol y fenter ar sgiliau ieithyddol a lefelau hyder y myfyrwyr.

## Astudiaeth achos 7: Y cynllun 'Cymraeg Gwaith+ mewn Addysg Uwch'

Mae **Dr Owen Thomas** yn rhoi manylion y cynllun 'Cymraeg Gwaith+' a redir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi staff ym maes addysg uwch sy'n gymharol rugl yn y Gymraeg, i gryfhau eu sgiliau ieithyddol, fel eu bod yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dau aelod o staff o Brifysgol Caerdydd a dau o Brifysgol Bangor yn disgrifio'r effaith y mae'r cynllun hwn wedi ei gael arnyn nhw'n bersonol, a sut maen nhw wedi gallu cefnogi a chryfhau cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr yn eu gweithleoedd perthnasol hwy.

## Astudiaeth achos 8: Dod yn brifysgol sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (TrACE)

Mae **Dr Caroline Hughes** yn esbonio'r ffordd y mae Prifysgol Wrecsam yn gweithio i ddod yn sefydliad sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod [Trauma and Adverse Childhood Experience (TrACE)] - un o'r sefydliadau cyntaf yn y DU. Mae bod yn ystyriol o TrACE yn golygu datblygu gwell dealltwriaeth o drawma ac effaith adfyd. Sefydlwyd rhwydwaith o staff, myfyrwyr a phartneriaid sy'n cymryd rhan ac mae 20 o fyfyrwyr wedi eu cofrestru bellach fel hyrwyddwyr TrACE. Cafodd ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol eu cyflwyno - er enghraifft, i diwtoriaid personol. Mae mentrau ymarferol i effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau dysgu'r myfyrwyr yn cynnwys datblygu arweiniad polisi drwy lens sy'n ystyriol o TrACE.

## Astudiaeth achos 9: Gwytnwch: A ddylem ni addysgu hyn fel sgil astudio?

Mae **Sadie Thackaberry** o Goleg Cambria'n amlinellu sefydliad a datblygiad parhaus gweithdai gwytnwch ymysg myfyrwyr ar y rhaglen HND mewn Rheolaeth Anifeiliaid, yn dilyn cyfleoedd dysgu proffesiynol a wnaeth yn y maes hwn. Erbyn hyn, mae adran arall yn y Coleg wedi mabwysiadu'r fenter hon. Ystyrir bod cefnogi twf gwytnwch ymysg dysgwyr yn beth sy'n cefnogi cynhwysiant am ei fod yn helpu i alluogi cyfle a llwyddiant addysgol, ac mae hyn wedi ei adlewyrchu yn arsylwadau'r dysgwyr.

## Astudiaeth achos 10: Gwallau yn y cynllun: Defnyddio deallusrwydd artiffisial i wella dysgu myfyrwyr

Mae **Pete Dunford** o Goleg Penybont yn trafod a allai technolegau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol newydd gynnig llwybr at brofiadau dysgu mwy effeithiol a diddorol. Yn dilyn dysgu proffesiynol yn y maes hwn, aeth ati i wneud nifer o fentrau i rymuso myfyrwyr i fod yn ddefnyddwyr beirniadol o ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, gan hefyd groesawu ei botensial fel erfyn dysgu. Mae'r rhain wedi eu hamlinellu'n fanwl, ac mae data meintiol ynghyd â data ansoddol a sicrhawyd drwy grwpiau ffocws myfyrwyr, yn dangos effaith gadarnhaol y mentrau ar ddysgu'r myfyrwyr.

## Astudiaeth achos 11: Gweld y ffordd ymlaen: Effaith tracio cynnydd a darparu esiamplau o gyflwyno darpariaeth hyblyg

Mae **Elizabeth Jones** yn trafod datblygiad dulliau darparu hyblyg ym Mhrifysgol De Cymru. Cyflwynwyd 13 o fodiwlau peilot yn ystod haf 2023 cyn eu darparu yn 2023-24, a gwnaethpwyd nifer o fentrau dysgu proffesiynol. Mae'r rhain, ynghyd â'r heriau a gododd, wedi eu hamlinellu'n fanwl. Cafodd modiwl enghreifftiol dderbyniad da, a daeth â'r dysgu proffesiynol yn fyw, fel y dangoswyd gan y cyfranogwyr yn y modiwlau peilot. Mae myfyrwyr yn rhoi sylwadau yr un mor gadarnhaol ar effaith y dull dysgu hyblyg ar eu dysgu.

## Astudiaeth achos 12: Hybu llythrennedd adborth ac ymgysylltiad ymhlith myfyrwyr

Mae **Steven Kehoe a Samantha Ellis** o Grŵp Llandrillo Menai'n trafod ymyriad diweddar a wnaed gan staff dethol yn dilyn sesiwn datblygiad proffesiynol am hybu llythrennedd adborth ymhlith myfyrwyr. Roedd yr ymyriad wedi ei ganolbwyntio ar ddefnyddio dalen flaen ar gyfer asesiadau i'w chwblhau gan y myfyrwyr. Roedd hon yn gofyn iddynt nodi agwedd o adborth o aseiniad blaenorol yr oedden nhw wedi gweithredu arni yn yr aseiniad cyfredol, a nodi agwedd benodol o'r aseiniad cyfredol y maen nhw eisiau derbyn adborth amdani. Cyflwynir data meintiol ac ansoddol sy'n dangos effaith y fenter hon ar berfformiad myfyrwyr.

## Astudiaeth achos 13: Cydweithfa Cymru: Rhwydwaith datblygiad proffesiynol

Mae **Steph Tindall** yn amlinellu sut mae grŵp rhwydwaith y sector ar ddysgu trochi, a sefydlwyd yn rhan o Brosiect Gwella Cydweithredol 2022-23 QAA Cymru a ariennir gan CCAUC dan y teitl 'Cydweithfa Cymru: Gwella Dysgu ac Addysgu Digidol' - wedi datblygu ac ehangu yn ystod 2023-24. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys naw sefydliad addysg uwch yng Nghymru a 12 coleg addysg bellach. Mae dyfyniadau ac esiamplau o dri o'r rhain wedi eu cynnwys yn yr astudiaeth achos, gan dynnu sylw at fuddion cydweithredu ar draws y sector addysg drydyddol a sut y cymerwyd y dysgu gan y Rhwydwaith yn ôl at ddarparwyr unigol, ac wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad proffesiynol staff a deilliannau dysgu'r myfyrwyr yn fewnol.

# Astudiaeth achos 1: Cynorthwyo darlithwyr sy'n cael eu talu fesul awr i wella dysgu'r myfyrwyr

**Dr John Deane, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

## Y cyd-destun a'r cefndir

Yn 2021, nododd Athrofa Dysgu Canol Dinas (Athrofa DCD) Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) bod angen gwella deilliannau dysgu'r myfyrwyr mewn perthynas â chadwraeth, cynnydd a chyrhaeddiad. Yn ogystal, roedd yr Athrofa DCD wedi canfod lefelau o gamymddwyn academaidd a oedd uwchlaw meincnodau'r Brifysgol. Hefyd, roedd y Rheolwyr Rhaglen wedi gweld anghysondeb yn yr adborth gan staff a'r marcio ymysg rhai darlithwyr sy'n cael eu talu fesul awr (darlithwyr TFA). Ceir tri mewnlif o fyfyrwyr i'r Athrofa DCD bob blwyddyn a phenodir darlithwyr TFA newydd drwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae'r Athrofa DCD yn cyflogi mwy na 150 o ddarlithwyr TFA i gefnogi darparu rhaglenni ar draws ei champysau yn Birmingham a Llundain. Mae darlithwyr TFA yr Athrofa DCD yn addysgu rhwng 4 a 20 awr yr wythnos fel arfer.

Mae'n naturiol, wrth ddefnyddio darlithwyr TFA i ddarparu rhaglenni academaidd, bod rhai'n symud ymlaen at gyfleoedd eraill yn rheolaidd. Mae eraill yn dewis aros a gweithio gyda'r Brifysgol am flynyddoedd lawer. Mae'r Athrofa DCD yn hysbysebu am ddarlithwyr TFA newydd dair gwaith y flwyddyn. Mae pob darpar ddarlithydd TFA yn cael eu cyfweld ac mae'n rhaid iddynt baratoi darlith fechan yn para 10 munud. Roedd adolygiad o ymgysylltiad â'r darlithwyr TFA yn cynnwys cyfweld darlithwyr TFA a chyfweld yr holl randdeiliaid yr oedd y darlithwyr hyn yn ymwneud â nhw, gan gynnwys Rheolwyr Rhaglen, Gwasanaethau Proffesiynol a myfyrwyr.

Un o brif ganlyniadau'r adolygiad hwn o ddarlithwyr TFA oedd argymhelliad i ddatblygu rhaglen ymsefydlu ffurfiol i ddarlithwyr TFA ynghyd â rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) oedd yn ymwneud â phob agwedd o'u hymgysylltiad â'r Brifysgol. Sefydlwyd rhaglen ymsefydlu orfodol gyda ffocws ar holl reoliadau, prosesau a systemau'r brifysgol, ac yn cynnwys amser iddyn nhw gyfarfod eu rheolwr rhaglen. Gofynnir i'r holl ddarlithwyr TFA gwblhau ffurflen werthuso ar ddiwedd eu cyfnod ymsefydlu.

Ym mis Awst 2021, yn dilyn yr Adolygiad Darlithwyr TFA, cynlluniwyd a lansiwyd y rhaglen DPP i staff TFA yn yr Athrofa. Roedd y rhaglen DPP hon i ddarlithwyr TFA yn cynnwys adborth gan ddarlithwyr TFA o'r cychwyn un. Mae'r rhaglen DPP i ddarlithwyr TFA wedi datblygu o un flwyddyn i'r nesaf, gan weithredu ar adborth gan yr holl randdeiliaid perthnasol. Darperir yr holl weithdai i ddarlithwyr TFA drwy Microsoft Teams. Telir darlithwyr TFA am fynychu'r hyfforddiant hwn ac mae eu presenoldeb ar yr hyfforddiant yn cael ei fonitro.

Rhedir gweithdai DPP i ddarlithwyr TFA ddwy i dair gwaith y flwyddyn, ac maen nhw'n cynnwys, er enghraifft:

- Deall y Polisi Camymddwyn Academaidd
- Arferion Da mewn Marcio, Rhoi Adborth a Safoni
- Arferion Gorau mewn Rhoi Adborth Ffurfiannol
- Rheoli Ymddygiad.

Mae trafodaeth barhaus gyda'r adran adnoddau dynol yn y Brifysgol am y ffordd y gall rhywun wneud ymgysylltiad â'r gweithdai DPP hyn yn orfodol i'r holl ddarlithwyr TFA newydd sydd eisiau addysgu yn yr Athrofa DCD. Trafodir mynychu sesiynau hyfforddi i ddarlithwyr TFA yng nghyfarfodydd Uwch Dîm Rheoli'r Athrofa DCD.

## Yr effaith ar arferion addysgu'r cyfranogwyr

Mae'r adborth gan ddarlithwyr TFA sydd wedi bod ar y gweithdai DPP wedi bod yn gadarnhaol o ran yr effaith y maent wedi ei gael ar eu gallu i ymgysylltu â systemau a phrosesau'r Brifysgol, ac felly maen nhw'n cefnogi'r myfyrwyr yn fwy effeithiol. Mae eu hadborth wedi bod yn arbennig o gadarnhaol am y sesiynau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu gwaith gyda myfyrwyr. Er enghraifft:

**Gweithdy Rheoli Ymddygiad**

> 'Mae'r gweithdai'n rhoi cyfle i'r rhai sy'n mynychu rannu arferion da, a mynd i'r afael ag arferion a allai gael eu hystyried yn rhai nad ydynt yn cyflawni gofynion y myfyrwyr a'r polisïau'n llawn.'

> 'Gweithdy gloywi da iawn, credaf y byddai'n ddefnyddiol cael hwn yn rheolaidd.'

**Gweithdy Arferion Gorau mewn Rhoi Adborth Ffurfiannol**

> 'Mae deilliannau dysgu fy myfyrwyr wedi gwella ers cymryd rhan yn y sesiwn hon.'

> 'Mi es i'r gweithdy am adborth ffurfiannol (am fy mod wedi bod yn meddwl am y peth yn barod) ac yn fy rôl fel arweinydd modiwl rwyf wedi cyflwyno gweithgareddau penodol i roi adborth ffurfiannol sydd wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â'r briff asesu.'

**Gweithdy am Arferion Da mewn Marcio a Rhoi Adborth**

> 'Mae'n wych gallu rhannu arferion gyda chydweithwyr.'

## Yr effaith ar ddeilliannau dysgu a pherfformiad y myfyrwyr

Er ei bod hi'n anodd, yn naturiol, i ganfod yn fanwl gywir lle mae cyfatebiaeth uniongyrchol rhwng cyflwyno'r rhaglen DPP ac ymgysylltiad darlithwyr TFA ynddi, mae deilliannau dysgu'r myfyrwyr wedi gwella'n amlwg mewn amrywiaeth o feysydd allweddol ers iddi gael ei chyflwyno. Fel y nodwyd isod, mae'r Athrofa DCD wedi gweld gwelliant pendant mewn cyfraddau camymddwyn academaidd, cadwraeth a graddau da, ynghyd â ffigurau presenoldeb gwell, ers i'r gweithdai gychwyn.

| Yr Athrofa DCD | 2021-22 | 2022-23 |
|---|---|---|
| Cyfraddau camymddwyn academaidd | 16.81% | 12.03% |
| Cyfraddau cadw | 50.04% | 78.95% |
| Presenoldeb (nifer o gyfranog-wyr) | 378 | 489 |
| Canran y myfyrwyr a gyflawn-odd raddau da | 68.36% | 71.29% |

Mae'r brifysgol wedi croesawu'r gweithdai i ddarlithwyr TFA yn yr Athrofa DCD ac mae rhaglen hyfforddi newydd ar draws y brifysgol i ddarlithwyr TFA yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

# Astudiaeth achos 2: Datblygiad proffesiynol myfyrwyr ôl-raddedig

**Annette Edwards, Prifysgol Aberystwyth**

## Y cyd-destun a'r cefndir

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi cynnig rhaglen Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth (AUMA) ers blynyddoedd lawer. Mae'r rhaglen wedi ei chynllunio i fod yn sgaffald ac i gefnogi'r rhai sy'n newydd i addysgu neu sy'n gynorthwywyr addysgu ôl-raddedig sy'n addysgu yn eu hadrannau yn barod. Mae hefyd yn gymhwyster trosglwyddadwy y gall cyfranogwyr ei ddwyn ymlaen, i mewn i'w gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae'r rhaglen ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cael ei hachredu drwy statws Cymrawd Cyswllt Advance HE.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ar y rhaglen AUMA wneud 20 awr o waith addysgu yn ystod y flwyddyn pan maen nhw'n gwneud y rhaglen. Arsylwir eu haddysgu dair gwaith gan gymheiriaid - unwaith gan eu mentor academaidd AUMA, unwaith gan gyfranogwr arall ar y rhaglen, ac unwaith gan dîm y rhaglen AUMA. Disgwylir i gyfranogwyr integreiddio awgrymiadau o'r sesiynau arsylwi gan gymheiriaid hyn ac o sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), ynghyd â deunyddiau darllen addysgol, i mewn i'w haddysgu. Yna maen nhw'n myfyrio ar yr holl elfennau hyn yn eu cyflwyniad terfynol.

## Effaith sefydliadol y rhaglen


Ers cyflwyno'r rhaglen AUMA, mae wedi cael ei chwblhau gan fwy na 150 o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, o'r mwyafrif o adrannau academaidd yn y Brifysgol. Mae'r rhaglen wedi ei hintegreiddio'n llawn i mewn i gynlluniau addysgu'r rhan fwyaf o adrannau, ac maen nhw'n annog eu myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn frwd i wneud cais am y rhaglen AUMA. Rhaid i'r holl geisiadau gael eu llofnodi gan yr adrannau academaidd unigol, felly mae mecanwaith cymorth clir yn ei le i sicrhau bod y cyfranogwyr yn cael cyfle i wneud y maint gofynnol o addysgu.

Cyn y rhaglen AUMA, roedd adrannau penodol yn anfodlon gadael i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgu. Oherwydd yr ymddiriedaeth sydd ganddynt yn awr yn y rhaglen AUMA, o safbwynt addysgu ac o safbwynt cymorth, mae'r un adrannau hyn yn awr yn mynd ati i annog eu myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig i gyflwyno cais.

Mae'r Athro Tim Woods, Cyn-ddirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr), yn amlinellu effaith y rhaglen:

> Mae'r rhaglen yn cyfuno darllen damcaniaethol ac addysgol gyda phrofiad ymarferol; ac am fy mod wedi gwneud rôl y mentor i nifer o'r cyfranogwyr hyn dros y blynyddoedd, rwy'n hynod o ymwybodol o'u hymroddiad, ymrwymiad a dull cyfrifol wrth iddynt fagu sicrwydd a hunan-hyder drwy gyfrwng y rhaglen. Trwy ennill statws Cymrawd Cyswllt Advance HE o ganlyniad i'r rhaglen, mae'n sefydlu myfyrwyr ôl-raddedig llwyddiannus fel pobl sy'n barod iawn i gael eu cyflogi yn y sector addysg uwch fel tiwtoriaid, a chanddynt brofiad a chymwysterau da i ddechrau rhaglen lawn y Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch (TUAAU) mewn sefydliad pan gânt eu penodi. Yn ei thro, mae'r rhaglen AUMA yn rhoi sicrwydd i'r Brifysgol bod y myfyrwyr israddedig yn cael eu dysgu gan gnewyllyn o staff iau wedi'u hyfforddi a staff proffesiynol.

**Ffigur 1: Manylion ystadegol data demograffig ac adrannol y rhaglen AUMA**



## Yr effaith ar ddatblygiad proffesiynol pellach y cyfranogwyr

Fel y nodwyd uchod, mae'r rhaglen AUMA yn llwybr dysgu proffesiynol cydnabyddedig i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ddechrau eu taith i mewn i academia. Mae hyn wedi ei adleisio gan yr Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion:

> ‘Rwy'n ystyried y rhaglen AUMA yn un o'n prif gyfleoedd hyfforddi i'n myfyrwyr PhD, sy'n rhoi hyfforddiant rhagorol iddynt, yn cynnwys addysgu mewn addysg uwch a thu hwnt. Yn ogystal, mae'r hyfforddiant yn amlwg yn cyfoethogi arferion addysgu, ac mae'r cyfranogwyr, y myfyrwyr a'r mentoriaid yn elwa.’

Mae llawer ohonynt yn mynd ymlaen ar ôl y rhaglen i ennill statws Cymrawd yr AAU, naill ai drwy'r cynllun ARCHE, sef llwybr uniongyrchol y Brifysgol, neu raglen y Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch (gwelwch Astudiaeth achos 4). O'r rheiny sydd wedi parhau ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae 20% yn awr wedi cyrraedd statws Cymrawd yr AAU. Mae swyddi addysgu parhaol yn y brifysgol gan nifer dda ohonynt, ac mae llawer mwy ohonynt wedi mynd ymlaen i swyddi parhaol mewn prifysgolion eraill. Mae'r cyfranogwyr hynny sy'n mynd ymlaen i gael swyddi addysgu parhaol ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn gweithredu'n aml fel mentoriaid i garfannau newydd, yn ogystal â chyfrannu gweithdai yn ystod y cyfnod ymsefydlu neu agweddau o'r rhaglen DPP. Hyd yn hyn, mae 14 o gyn-fyfyrwyr y rhaglen AUMA wedi cyfrannu at weithdai neu i'r rhaglen ymsefydlu, ac mae pump wedi mynd ymlaen i ddod yn fentoriaid, ar ôl cyflawni statws Cymrawd yr AAU.

Gellir gweld effaith gadarnhaol y rhaglen hefyd mewn gwerthusiadau mewnol o fodiwlau ac yn yr Arolwg Profiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig gydag arsylwi gan gymheiriaid wedi ei nodi'n aml fel un o elfennau mwyaf defnyddiol y rhaglen. Mae'r cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r adborth ymarferol ac adeiladol y maent yn ei dderbyn am eu harferion addysgu, tra bo mentoriaid hefyd wedi bwydo'n ôl i ddweud eu bod yn elwa'n fawr yn broffesiynol o gyfrannu at y rhaglen, yn enwedig o weld modelau i integreiddio technoleg i mewn i addysgu, ynghyd â gweld sut mae addysgu'n digwydd mewn gwahanol ddisgyblaethau.

## Yr effaith ar brofiadau dysgu'r cyfranogwyr a'r myfyrwyr

Cyn llunio'r astudiaeth achos hon, galwyd ar gyn-fyfyrwyr y rhaglen AUMA i roi eu hadborth am y rhaglen. Gellir gweld yn glir yr effaith y mae'r rhaglen AUMA wedi ei chael ar eu haddysgu ac, yn eu tro, ar brofiadau dysgu eu myfyrwyr eu hunain, drwy eu sylwadau - mae detholiad o'r rhain wedi eu cynnwys isod.

> ‘Mae'r rhaglen AUMA wedi gwella fy arferion addysgol yn enfawr drwy fy addysgu i fyfyrio'n onest ar yr hyn yr oeddwn yn ei wneud yn yr ystafell ddosbarth. Trodd fy null o addysgu ar ei ben a'm helpu i lunio a gweithredu gweithgareddau addysgu arloesol sydd wedi eu seilio mewn damcaniaethau, ac mae'r rhain wedi gwella fy hyder proffesiynol yn enfawr ac mae fy myfyrwyr yn eu caru nhw.’

> ‘Mae'r rhaglen AUMA ... wedi fy helpu i archwilio amrywiol ddulliau o ddarparu cynnwys ac wedi fy nysgu sut i ymgysylltu â myfyrwyr ar lefel fwy ystyrlon. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at fy nhwf proffesiynol.’

> ‘Roedd y rhaglen AUMA yn wych i fy hyder fel athro. Roedd yr hyder hwn, yn ei dro, yn fy ngalluogi i gymryd mwy o risgiau a rhoi lle i fwy o hyblygrwydd yn yr ystafell ddosbarth, a sicrhaodd fwy o hwyl a dysgu i bawb yn y pen draw.’

> ‘Gweddnewidiwyd fy null o addysgu gan y rhaglen AUMA. Rhoddodd werthfawrogiad i mi o arddulliau dysgu amrywiol a phwysigrwydd creu amgylchedd dosbarth cynhwysol a diddorol. Mae'r profiad wedi fy ngwneud yn fwy hyblyg a myfyriol, ac yn addysgwr effeithiol sydd wedi ymrwymo i feithrin taith ddysgu ddynamig a chefnogol i'm myfyrwyr i gyd.’

Mae'r detholiad bychan hwn o'r adborth hynod gadarnhaol a gasglwyd, yn dangos sut mae'r rhaglen AUMA yn gwneud cyfraniad sylweddol at amgylchedd dysgu ac addysgu'r Brifysgol. Mae datblygiad proffesiynol wedi'i dargedu wedi galluogi lefelau uchel o ymgysylltiad a mwy o gynhwysiant ymysg y myfyrwyr.

# Astudiaeth achos 3: Diwylliant o chwilfrydedd: Ymwreiddio ymchwil-weithredu

**Bryony Evett Hackfort, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion**

## Y cyd-destun a'r cefndir

Mae Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn ddarparwr addysg bellach sydd wedi ei leoli yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn Ne-orllewin Cymru, ac mae'n cyflwyno darpariaeth 14-19 hyd addysg uwch ar draws nifer o gampysau. Mae blaenoriaethau'r Coleg yn canolbwyntio ar ddysgu ac addysgu, profiad y dysgwyr, gwytnwch busnes cynaliadwy a gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r Coleg yn ymroddedig i ysbrydoli chwilfrydedd ym mhawb sy'n gweithio a dysgu yno, a chefnogir y staff i fod yn arloesol a chreadigol ac i'w herio eu hunain i ddysgu er mwyn ysbrydoli'r dysgwyr i wneud yr un peth. Er mwyn modelu grym chwilfrydedd i'r dysgwyr, roedd angen i'r staff arwain drwy osod esiampl. Yr her i'r Coleg oedd datblygu ffordd o roi'r rhyddid i'r ymarferwyr wneud hyn, gan hefyd roi hyder i'r sefydliad mewn proses effeithiol o safon.

Ers 2015, mae'r Coleg wedi datblygu agwedd tuag at ddysgu proffesiynol sy'n rhoi pwyslais ar arferion myfyriol ymarferwyr unigol i siapio gweithgareddau dysgu pwrpasol. Roedd y strwythur effeithiol hwn yn golygu bod gan y Coleg fframwaith cryf yn barod o fewn ei agwedd tuag at ddatblygiad proffesiynol a allai gael ei ddefnyddio i ysgogi ateb i'r her uchod.

Yn 2019-20, lansiodd y Coleg ei raglen Diwylliant o Chwilfrydedd ac Ymchwil-Weithredu i roi rhwydwaith sicr a chefnogol i staff fel y gallant ymgysylltu ag ymchwil wedi ei seilio ar arferion. Mae'r rhaglen wedi ei llunio i bara'r flwyddyn academaidd lawn gyda phob aelod o staff yn cael eu rhyddhau o addysgu am ddwy awr yr wythnos. Mae'r prosiect yn derbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Dysgu Proffesiynol Addysg Bellach.


Mae cydraddoldeb a chynhwysiant yn hollbwysig ac felly mae staff o bob rhan o'r sefydliad cyfan yn cael eu gwahodd i wneud cais am safle wedi'i ariannu bob blwyddyn er mwyn gwneud prosiectau ymchwil-weithredu pwrpasol mewn maes o'u dewis. Mae'r rhyddid hwn i ddewis yn hanfodol fel bod y staff yn teimlo'n frwdfrydig ynglŷn ag archwilio meysydd sy'n eu diddori a chanddynt amser ymroddedig i wneud hynny, gyda chefnogaeth yr Uwch Dîm Rheoli a'r Bwrdd Llywodraethwyr.

Mae'r staff yn cyflwyno cynigion am brosiectau a darperir adborth adeiladol gan banel sy'n cefnogi datblygiad y prosiect o'r cychwyn. Mae creadigedd yn cael ei feithrin a gall y staff gymryd eu prosiectau i'r cyfeiriad sy'n berthnasol i'w harferion yn eu barn hwy; gallant benderfynu ar y ffocws, y fethodoleg a natur y deilliannau. Trwy gymorth un-i-un, mae perchnogaeth gan y staff dros y ffordd y bydd y prosiect yn esblygu ac yn addasu wrth iddynt ddysgu pethau newydd.

Fel y dangosir yn Ffigur 1 isod, mae gan y rhaglen nifer o nodweddion arbennig sy'n cynnwys:

- siaradwyr gwadd
- gweithdai techneg
- cymorth un-i-un
- grwpiau adolygu gan gymheiriaid
- cymorth i rannu a chyhoeddi'r canfyddiadau.

**Ffigur 1: Taith ymchwil yr ymarferydd**




Ei uchafbwynt yw Gŵyl Ymarfer flynyddol a chynhyrchir gwefan sy'n rhoi platfform i bob ymarferydd i rannu eu meddyliau a manylion eu cynnydd. Gyrrir sesiynau'r ŵyl gan weithdai a gall staff ar draws y Coleg ddewis pa sesiynau yr hoffent fynd iddynt ar sail eu chwilfrydedd eu hunain. Mae'r sesiynau'n rhyngweithiol ac yn annog y rhai sy'n mynychu i ystyried sut y gallai'r syniadau a archwilir gael eu hymwreiddio yn eu meysydd o arfer eu hunain.

## Esiamplau o brosiectau

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r prosiectau ymchwil-weithredu wedi bod yn amrywiol yn eu themâu a'u maint, ond maen nhw bob amser yn cael eu gyrru'n gyson gan bob athro unigol a'u synnwyr eu hunain o chwilfrydedd. Mae'r prosiectau'n cynnwys newidiadau bach i'r addysgeg o ddydd i ddydd, fel agweddau tuag at asesu, methodolegau adolygu neu arferion dysgu gyda chymorth technoleg ddigidol, ynghyd â themâu ehangach sydd weithiau'n rhai trawsgolegol.

### Camera Ymlaen - Camera i Ffwrdd: Catherine Roberts

Ym mis Mawrth 2020 gwelwyd newid enfawr yn y ffordd y mae ymarferwyr yn ymgysylltu â'r myfyrwyr. Roedd dull ar-lein yn unig yn syniad newydd ond cyffrous i ymarferwyr. I ddechrau, polisi'r Coleg oedd y byddai'r myfyrwyr i gyd yn dilyn eu hamserlen wyneb yn wyneb arferol, ond ar y platfform ar-lein. Roedd y polisi'n amlinellu'r rheolau ar gyfer ymgysylltiad. Un ohonynt oedd bod gan y staff a'r myfyrwyr eu camerâu ymlaen oherwydd gallai hyn fesur ymgysylltiad. Roedd prosiect ymchwil-weithredu Catherine Roberts, dan y teitl 'Camera Ymlaen - Camera i Ffwrdd', yn holi sut mae rhywun yn mesur ymgysylltiad mewn gwersi ar-lein ac effeithiau gorbryder a straen sgrin ar ddysgwyr. Daeth i'r casgliad bod presenoldeb 'corfforol' mewn lle ar-lein yn ffordd simplistig o fesur ymgysylltiad a bod modd mesur ymgysylltiad mewn nifer o ffyrdd. Nid camera o anghenraid yw un o'r ffyrdd hynny, yn hytrach mae defnyddio dulliau ar-lein amser real - fel codi llaw, Google Chat a Google Jamboard a phleidleisio - yn ddangosyddion gwell o ddealltwriaeth y dysgwr a'u rhyngweithiad yn y sesiwn. Cyflwynodd Catherine ei gwaith ymchwil yn yr Ŵyl Ymarfer lle cafodd dderbyniad cadarnhaol ac anogodd unigolion i gwestiynu eu harferion eu hunain.

Wedi hynny, roedd ei gwaith ymchwil yn cefnogi newid y Coleg mewn polisi yn ymwneud â gwersi ar-lein. Cafodd dysgwyr eu hannog i fod â'u camerâu ymlaen ar gyfer y cofrestriad cychwynnol, ond, wrth gyflwyno'r wers, roedd gan y dysgwyr y rhyddid i ymgysylltu â'u cymheiriaid a'r darlithydd yn y ffordd oedd yn teimlo fwyaf cyfforddus iddyn nhw - p'un a oedd hynny drwy siarad, emojis neu flychau sgwrsio o fewn y sesiwn. Roedd gwaith Catherine yn annog arweinwyr uwch, staff a dysgwyr i ailfeddwl eu hagwedd tuag at wersi ar-lein a newidiodd farn y Coleg yn llwyr am y ffordd yr oedd eisiau i ddysgwyr ymgysylltu â'r gofod ar-lein. Roedd yr ymchwil yn hanfodol o ran helpu i ddatblygu dealltwriaeth o ddeinameg amgylchedd ar-lein a sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu cefnogi i ymgysylltu mewn ffordd a oedd yn gyfforddus iddyn nhw a'u hanghenion unigol.

Hefyd, cyhoeddodd Catherine ei gwaith ymchwil yn y cylchgrawn 'inTuition' cenedlaethol, a achosodd lawer o gwestiynu a thrafodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol.

### Yr Amgylchedd Meddwl: Vicky Davies

Mae'r Amgylchedd Meddwl yn gyfres o egwyddorion ac arferion sy'n creu lle diogel a chefnogol i bobl feddwl yn effeithiol â'i gilydd. Cafodd ei ddatblygu gan Nancy Kline ar sail ei hymchwil i'r amodau sy'n meithrin meddwl creadigol a chydweithredol. Mae'r Amgylchedd Meddwl wedi ei seilio ar y syniad bod gan bawb y potensial i feddwl yn greadigol a datrys problemau, ond bod y potensial hwn yn aml wedi ei rwystro gan y ffordd yr ydym yn rhyngweithio â'n gilydd fel arfer. Mae'r Amgylchedd Meddwl yn annog unigolion i fod yn feddwl agored, chwilfrydig a pharchus o'u syniadau ei gilydd. Anogir unigolion hefyd i gymryd risgiau ac arbrofi gyda syniadau arloesol, heb ofni beirniadaeth.

Defnyddiodd Vicky Davies yr Amgylchedd Meddwl yng nghyd-destun sesiwn diwtora a gweld ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a chwblhad llwyddiannus dysgwyr sydd yn yr ail flwyddyn ar raglen lefel 3 mewn Technoleg Cerddoriaeth. Cymharu â Blwyddyn 1:

- cynyddodd presenoldeb o 83% i 92.9%
- cynyddodd cwblhad llwyddiannus o 88% i 100%.

Roedd hi'n teimlo bod defnyddio egwyddorion ac arferion yr Amgylchedd Meddwl yn cynyddu ymgysylltiad y dysgwr ac yn cryfhau lefelau hyder. Cadarnhaodd y dysgwyr hynny, gyda 100% ohonynt yn dweud eu bod yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed a chadarnhaodd 94% ohonynt ei fod yn gyfrwng defnyddiol mewn sesiynau tiwtora.

### Addysgu'r Athrawon: Alex Huggett

Roedd Addysgu'r Athrawon yn brosiect ymchwil a grëwyd yn wreiddiol gan Rachel Arnold o Goleg Solihull. Hanfod y prosiect yw ei fod yn gyfle i'r dysgwr addysgu ei grefft alwedigaethol i'w athro Mathemateg neu Saesneg, wrth gael ei asesu mewn ffordd hwyliog. Daw'r dysgwr yn arbenigwr, a daw'r athro'n ddysgwr.

Gwnaeth Alex Huggett brosiect tebyg yn rhan o'r rhaglen ymchwil-weithredu yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. Roedd yr adborth a dderbyniodd hi gan ei dysgwyr yn gadarnhaol tu hwnt, a dywedodd y dysgwyr eu bod yn teimlo eu bod yn adnabod Alex yn well ar ôl y sesiwn, a'u bod yn teimlo'n fwy hyderus i ofyn cwestiynau ac yn credu bod gweithgaredd o'r fath yn gwella'r berthynas rhwng dysgwyr ac athrawon.

## Yr effaith ar y cyfranogwyr yn y rhaglen

O ganlyniad i wneud prosiectau ymchwil-weithredu, mae tri aelod o staff wedi bod yn rhan o bodlediadau, yn cynnwys y gyfres genedlaethol 'Teaching Excellence' o bodlediadau, tra bo gwaith 11 aelod o staff wedi cael ei gyhoeddi ers mis Ionawr 2020. Mae llawer o staff wedi cyflwyno eu prosiect ymchwil-weithredu'n genedlaethol - er enghraifft, yn ystod Cyfarfodydd Ymchwil AB a digwyddiad 'Moving Forward together' Edufuturists, yn ogystal â chynadleddau i'r Undeb Addysg Cenedlaethol. Cychwynnodd bob un o bedwar aelod y tîm Dysgu ac Addysgu drwy wneud prosiectau ymchwil-weithredu cyn symud i mewn i rolau canolog. Fel y crybwyllodd un aelod o staff a ymunodd â'r rhaglen ymchwil-weithredu:

> 'Mae bod yn rhan o'r rhaglen ymchwil-weithredu'n gadael i chi fyfyrio ar eich ymarferion a sut y gallwch wneud newid ystyrlon yn eich ystafell ddosbarth. Mae wedi rhoi'r hwb a'r hyder i mi i wneud cyfweliadau, adolygiadau ymarfer a bod yn rhan o gymuned ymchwil ehangach lle rwy'n rhannu canfyddiadau fy ngwaith ymchwil gyda'r gymuned ymchwil ehangach trwy ein Coleg i gyd a thu hwnt.'

# Astudiaeth achos 4: Defnyddio ymchwil-weithredu i ddatblygu dulliau dysgu ac addysgu effeithiol

**Dr Mary Jacob, Prifysgol Aberystwyth**

## Y cyd-destun a'r cefndir

Mae'r astudiaeth achos hon yn trafod effaith prosiectau ymchwil-weithredu ar weddnewidiad arferion addysgu a deilliannau dysgu'r myfyrwyr. Mae prosiectau ymchwil-weithredu yn rhan o'r gwaith cwrs a asesir ar gyfer y Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch (TUAAU) ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r cymhwyster TUAAU yn gymhwyster lefel meistr o 60 credyd sy'n cynnwys dau fodiwl blwyddyn.

Nod y cymhwyster TUAAU yw helpu cyfranogwyr i ddyfnhau eu dealltwriaeth addysgol a datblygu eu haddysgu, gan ddod â theori ac ymarfer at ei gilydd i wneud penderfyniadau deallus am yr hyn sydd orau iddyn nhw a'u myfyrwyr. Prosiectau ymchwil-weithredu yw craidd yr ail fodiwl. Trwy ymchwil-weithredu, mae cyfranogwyr yn asesu anghenion y myfyrwyr, yn cynllunio ymyriad addysgol ar sail egwyddorion addysgol cadarn, ac yn gwerthuso'r effaith ar ddysgu'r myfyrwyr. Ysgrifennir am y prosiectau fel adroddiadau gyda thystiolaeth. Defnyddir ymarfer myfyriol drwyddynt draw.

Canolbwynt y prosiect ymchwil-weithredu yw bod cyfranogwyr yn diffinio'r newidiadau y maent eisiau eu creu yn eu myfyrwyr. Gallai'r rhain fod yn gyfuniad o ymddygiadau y maen nhw eu heisiau, newidiadau gwybyddol fel meistroli cynnwys, ac ymgysylltiad emosiynol fel hyder a chymhelliant. Mae'r ymyriad ei hun wedi ei lunio i ddod â'r newidiadau y maent eu heisiau, tra bo'r cam gwerthuso'n mesur yr effaith ar brofiadau a dysgu'r myfyrwyr.

Yn y cymhwyster TUAAU, cefnogir cyfranogwyr i gynllunio a rhedeg eu prosiectau ymchwil-weithredu trwy gyfres o gamau:

- **dadansoddiad o anghenion cyn cyrraedd**, sef cyfarfod un-i-un lle mae pob cyfranogwr yn siarad â'r cydlynydd i lunio contract dysgu wedi'i deilwra sy'n cynnwys eu nodau dysgu ar gyfer y modiwl; dyma'r drafodaeth archwiliadol gyntaf am bynciau posibl ar gyfer prosiectau ymchwil-weithredu sy'n ateb anghenion cyd-destun addysgu'r cyfranogwr hwnnw a'i wybodaeth flaenorol.
- **gweithdy cydweithredol yn ystod y cyfnod ymsefydlu** lle mae cyfranogwyr yn dechrau creu cynllun ar gyfer eu prosiectau ac yn ei rannu gyda thîm y cwrs a chymheiriaid
- **cyflwyniad wedi'i asesu o'u cynllun prosiect**, wedi ei ddarparu mewn grwpiau bychain i dderbyn adborth gan dîm y cwrs a chymheiriaid
- **clinigau cwestiynau gwerthuso mewn grwpiau bychain** i gefnogi cyfranogwyr i lunio a gwerthuso eu prosiectau, yn cynnwys mesur effeithiolrwydd yr ymyriad addysgol
- **sesiynau ymgynghori un-i-un ar gais** i gefnogi datblygiad eu prosiectau.

Mae rhai cyfranogwyr TUAAU yn gwneud y rhaglen Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth (AUMA) yn gyntaf (gwelwch Astudiaeth achos 2) ac yna'n mynd ymlaen i'r ail fodiwl TUAAU i wneud eu prosiectau ymchwil-weithredu. Er enghraifft, roedd y garfan a gychwynnodd y modiwl ymchwil-weithredu ym mis Ionawr 2024 yn cynnwys 21 o gyfranogwyr yr oedd chwech ohonynt wedi gwneud y rhaglen AUMA gynt.

## Yr effaith ar y cyfranogwyr yn y rhaglen

Mae adroddiadau'r prosiectau ymchwil-weithredu'n dangos tystiolaeth o effaith sylweddol ar arferion y cyfranogwyr a gwelir effaith bellach mewn digwyddiadau lledaenu. Mae'r cyfranogwyr TUAAU yn cyflwyno'n rheolaidd yng Nghynhadledd Dysgu ac Addysgu Prifysgol Aberystwyth. Er enghraifft, yn 2023, cyflwynodd saith cyfranogwr yn y gynhadledd hon a hefyd rhoddodd dau o'r unigolion hyn gyflwyniadau yn rhan o'r gyfres 'Vevox Pedagogy' o weminarau.

Hefyd, mae cyfranogwyr yn y rhaglen yn aml yn cymryd safleoedd o gyfrifoldeb yn y Brifysgol. Er enghraifft, daeth tri unigolyn yn Gyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu yn eu hadrannau ar ôl gwneud y cynllun, tra bod un arall wedi gweithio fel Pennaeth Ysgol dros dro.


Mae arholwyr allanol yn aml yn nodi safon uchel dysgu'r cyfranogwyr, fel yr awgrymwyd yn y dyfyniad isod, gan arholwr allanol yn 2022:

> ‘Un o gryfderau'r cynnig yw'r ffordd y mae DPP wedi ei integreiddio i mewn i'r cwrs. Mae hyn yn helpu cyfranogwyr i brofi llawer o feysydd y gellir eu hadeiladu i mewn i'w harferion a dangos tystiolaeth ohonynt yn eu hasesiadau. Mae cyfranogwyr hefyd yn gwneud prosiect ymchwil-weithredu sy'n ffordd wych o hau hadau arloesiad a newid o fewn y sefydliad.’

## Yr effaith ar y myfyrwyr

Dangosir effaith bositif ar y myfyrwyr y mae'r cyfranogwyr yn eu haddysgu drwy'r data gwerthuso a gesglir ac a ddadansoddir yn y prosiectau ymchwil-weithredu. Mae dyfyniadau a data gan y cyfranogwyr, a gynhwysir yma, yn rhoi blas o natur ac effaith yr ymyriadau a wneir.

**Ffigur 1: Lefelau hyder y myfyrwyr cyn ac ar ôl yr ymyriad**





Cafodd y modiwl hwn Ganmoliaeth Uchel yng Ngwobr Cwrs Nodedig 2021 y Brifysgol ac mae'n parhau i ddod â theori ac ymarfer at ei gilydd er budd pawb perthnasol.

> "Ar gyfer fy mhrosiect ymchwil-weithredu, archwiliais waith gyda myfyrwyr i gyd-lunio cyfarwyddyd a meini prawf marcio. Mae hwn wedi bod yn brofiad arwyddocaol yn fy addysgu, yn gyntaf, am ei fod wedi fy ngalluogi i ddeall y gall myfyrwyr fod yn ansicr iawn ynglŷn â'r hyn y maen nhw'n cael eu hasesu arno ac, yn ail, am ei fod yn darparu profiad unigryw i weithio gyda myfyrwyr fel partneriaid, gan feithrin eu dealltwriaeth a rhoi synnwyr o berchnogaeth iddyn nhw. Mae wedi bod yn anrhydedd gweld y myfyrwyr yn teimlo'n gyffrous ynghylch y dasg, a gweld eu hyder yn tyfu yn y ffordd y maen nhw'n mynd ati i ymdrin ag aseiniadau. Mae wedi bod yn brofiad y byddwn yn argymell bod fy nghyd-ddarlithwyr yn cymryd rhan ynddo."
>
> Panna Karlinger, Yr Ysgol Addysg

> Roedd fy mhrosiect ymchwil-weithredu'n ymwneud â defnyddio arferion adalw gyda gweithgaredd meddwl-pâr-rhannu i wella ymgysylltiad a dysgu'r myfyrwyr ar gyfer addysgu rhaglennu Python i fyfyrwyr ôl-raddedig. Roedd y prosiect ymchwil-weithredu hwn yn dangos gwell dysgu ac ymgysylltiad gan fyfyrwyr o ran y nifer uwch o geisiadau a'r nifer uwch o atebion cywir mewn arferion adalw gyda gweithgaredd meddwl-pâr-rhannu o'i gymharu ag arferion adalw yn unig.
>
> Yasir Shaikh, Cyfrifiadureg

> Darparodd y prosiect ymchwil-weithredu'r cyfle perffaith i weithredu ac astudio effeithiolrwydd gweithdai asesu dilys yng nghyd-destun modiwl. Roedd y gweithdy a gynlluniwyd wedi gwella dysgu'r myfyrwyr yn fawr iawn drwy ddarparu profiad dysgu dilys, ac wedi gwella 'llythrennedd asesiad' y myfyrwyr a'u hyder yn eu haseiniad terfynol.
>
> Eleanor West, Yr Ysgol Gelf

**Ffigur 2: Dadansoddiad o farciau asesu gwaith 2021-22**



“Yn y dosbarth gramadeg Ffrangeg. Roeddwn i eisiau helpu myfyrwyr i fabwysiadu'r cystrawennau brawddeg yr oeddem wedi eu hastudio yn y dosbarth a'u defnyddio yn rhan o'u gwaith ysgrifennu. Hyd hynny, roeddwn wedi cael trafferth pontio'r bwlch rhwng dealltwriaeth y myfyrwyr o'r patrwm yn ddamcaniaethol, a defnydd y myfyrwyr o'r patrwm hwnnw yn eu hysgrifennu. Rhoddodd fy mhrosiect ymchwil-weithredu cyntaf ym mis Ebrill 2023 y lle a'r adnoddau i mi i fframio'r archwiliad hwn, mewn ffordd oedd wedi ei seilio ar dystiolaeth ac a roddodd ddull cadarn i mi o weithredu'r newid hwn. Erbyn hyn rwyf wedi gallu gwneud ymarfer ysgrifennu Ffrangeg yn rhan reolaidd o'm gwersi gramadeg, ac mae sgiliau cyfansoddi'r myfyrwyr wedi gwella mewn ffyrdd y gellir eu harddangos o ganlyniad i hynny, er enghraifft pan maen nhw'n defnyddio brawddegau cymhleth sy'n gywirach o ran cystrawen.”

Julie Duran-Gelleri, Ieithoedd Modern

# Astudiaeth achos 5: 'Sylfaenol, Gwell, Gorau': Cynorthwyo darpariaeth ddwyieithog ym maes addysg bellach

**Helen Griffith, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion**

## Y cyd-destun a'r cefndir

Gellir cael pob math o ddarpariaeth ddwyieithog a gellir ei dehongli mewn gwahanol ffyrdd. Byddai pobl yn gofyn yn aml i awdur yr astudiaeth achos hon, "Sut yn union ydw i'n addysgu'n ddwyieithog, beth mae hynny'n ei olygu o ddydd i ddydd?" Fel Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, sef coleg addysg bellach sydd â nifer o gampysau yn Ne-orllewin Cymru, penderfynodd yr awdur ddarparu ateb ymarferol i'r cwestiwn. Yr ateb oedd creu erfyn rhagnodol gweledol sy'n hawdd ei ddefnyddio (gwelwch y ffeithlun ar ddiwedd yr astudiaeth achos hon) y gallai'r staff weithio drwyddo fel rhestr wirio i ganfod beth oedd eu gallu o ran cyflenwi darpariaeth ddwyieithog, a sut y gallent symud ymlaen a datblygu eu hystafell ddosbarth ddwyieithog er budd y dysgwyr i gyd.

Mae'r erfyn yn canolbwyntio ar y syniad fod modd i bob tiwtor ddatblygu ei sgiliau i addysgu'n ddwyieithog o sylfaenol i well, ac o well i orau ac, o ganlyniad, y bydd pob dysgwr yn derbyn y profiad dysgu dwyieithog 'Sylfaenol' os nad gwell yn y dosbarth, ymhob gwers y maen nhw'n mynd iddi. Byddai'r dysgwyr eraill, yn naturiol yn derbyn y dulliau darparu dwyieithog 'Gwell' a 'Gorau', yn dibynnu ar eu rhaglen a sgiliau ieithyddol eu tiwtor. Mae rhagnodiad gweledol o'r lefelau amrywiol yn caniatáu i diwtoriaid ddefnyddio'r rhestr wirio'n hawdd fel canllaw i'r hyn sy'n gwneud gwersi sylfaenol, gwell a gorau. Y nod yw galluogi i'r staff i gyd, beth bynnag fo'u gallu ieithyddol, ddarparu gwers ddwyieithog 'Sylfaenol' o leiaf yn hyderus. Y gobaith yw y bydd hyn yn eu hysbrydoli i symud ymhellach ar hyd y continwwm i wella eu sgiliau Cymraeg eu hunain a rhai eu dysgwyr.

Lansiwyd yr erfyn, gyda chefnogaeth cyfres o sesiynau datblygiad staff yn dangos sut i'w ddefnyddio, ac ymhle i ddod o hyd yn hawdd i'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni pob un o'r meini prawf ar hyd y llwybr rhagnodol. Y cam nesaf yn y broses o ddatblygu'r erfyn hwn fydd cynhyrchu fersiwn mwy digidol gyda'r adnoddau digidol a'r sesiynau hyfforddi wedi eu llwytho y tu ôl i bob un o'r meini prawf, fel bod y tiwtoriaid yn gallu dychwelyd ato dro ar ôl tro, i adolygu ac ail edrych ar yr adnoddau sydd ar gael a chefnogi eu datblygiad ar hyd y meini prawf 'Sylfaenol, Gwell, Gorau'. Bydd y pecyn digidol yn cyflenwi'r ffeithlun a bydd yn ddiddorol ac yn llawn gwybodaeth.

Yn dilyn bloc cychwynnol o ddatblygiad staff cyffredinol, paratowyd sesiynau pwrpasol ar gyfer gwahanol adrannau ac i staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg amrywiol. Darperir hyfforddiant ar yr un pryd o fewn adran, gyda'r staff wedi eu rhannu'n grwpiau o'r rheiny sy'n nodi bod eu sgiliau Cymraeg yn 'Sylfaenol', 'Gwell' neu 'Orau'. Hefyd cynigir slotiau sesiwn 15 munud byrion ar amseroedd cinio i staff ddod i ofyn cwestiynau a derbyn cymorth un-i-un sy'n fwy personol iddyn nhw.

Yn rhan o Fframwaith Dysgu Proffesiynol pwrpasol y Coleg, cynigir gwahanol Lwybrau Chwilfrydedd (gwelwch Astudiaeth achos 3). Un o'r llwybrau hyn yw'r Llwybr Dwyieithog sy'n llwybr datblygiad staff a luniwyd o amgylch anghenion y meini prawf 'Sylfaenol, Gwell, Gorau'. Mae'r Fframwaith Dysgu Proffesiynol yn derbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Dysgu Proffesiynol Addysg Bellach.

## Yr effaith ar y staff

Mae'r staff wedi ymateb yn gadarnhaol i'r erfyn 'Sylfaenol, Gwell, Gorau' ac maen nhw wedi ei gael yn fframwaith defnyddiol i gefnogi datblygiad eu sgiliau dwyieithog, a gwelir hyn yn y sylwadau isod gan ddau aelod o'r staff sy'n gweithio mewn meysydd astudio gwahanol:

> ‘Mae'r erfyn 'Sylfaenol, Gwell, Gorau' wedi gwella ein hymdrechion ystafell ddosbarth ddwyieithog, gan ddarparu fframwaith cyffredin ac amcanion clir. Mae wedi caniatáu i ni adnabod ein cryfderau a meysydd sydd angen eu gwella, gan siapio ein strategaethau addysgu. Mae wedi ein helpu ni i ddatblygu ein hystafell ddosbarth ddwyieithog ymhellach, hybu cydweithrediad a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr.’

> ‘Mae'r canllaw 'Sylfaenol, Gwell, Gorau' wedi rhoi syniad clir i mi beth yw fy safon o ran fy nghyflwyniad ystafell ddosbarth ddwyieithog. Mae'n caniatáu i mi ystyried fy nghryfderau a meysydd sydd angen eu datblygu, i sicrhau ein bod yn cyflawni ein nod o greu amodau ffafriol i'r iaith Gymraeg ffynnu o fewn ein hystafelloedd dosbarth a chymuned ehangach y Coleg.’

## Yr effaith ar y dysgwyr

Mae dysgwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r fenter hefyd, gyda'r rheiny sydd â sgiliau Cymraeg cyfyngedig, a'r rhai sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl ac sy'n cyflwyno eu gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg, yn nodi bod y ffocws ar ddarpariaeth ddwyieithog wedi gwella eu profiad coleg, yn ogystal â'u hyder a'u rhagolygon yn fwy cyffredinol.

> ‘Yn fy marn i, mae addysgu dwyieithog, yn fy helpu'n fawr i gael y cyfle i wneud cais am swyddi yn y dyfodol ac mae hefyd yn rhoi'r hyder i mi i gystadlu mewn cystadlaethau sgiliau. Yn ddiweddar, bûm yn cystadlu mewn cystadleuaeth gan Sgiliau Cymru. Mae'r gallu i gyfathrebu'n ddwyieithog yn fantais i mi yn y byd hwnnw hefyd.’

> ‘Y prif reswm yr wy'n gweld bod cael athro sy'n addysgu'n ddwyieithog fel hyn yn beth da yw ei fod yn caniatáu i mi wella fy sgiliau siarad Cymraeg. Rwy'n mwynhau cael sgyrsiau yn y Gymraeg a siarad am y gwaith a wnawn yn y dosbarth mewn ffordd y gallaf ei deall yn well, weithiau, nag os byddai wedi'i ddweud yn Saesneg.’

## Effaith yr erfyn ar draws y sefydliad

Mae'r erfyn 'Sylfaenol, Gwell, Gorau' yn cael effaith yn strategol hefyd yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, yn ogystal ag ar lefel weithredol yn yr ystafell ddosbarth. Nawr mae'n ddull wedi'i ymwreiddio o fesur dwyieithrwydd mewn arsylwadau addysgu, gydag adran benodol o'r ffurflen arsylwi wedi'i neilltuo'n unswydd ar gyfer safonau addysgu dwyieithog y tiwtor, wedi ei fapio yn erbyn y meini prawf 'Sylfaenol, Gwell, Gorau'. Mae'r data o'r cylch arsylwi addysgu diweddaraf yn mynd i gael ei ddadansoddi ac yna bydd y tîm Dwyieithrwydd yn gallu targedu cymorth, anogaeth a rhagor o hyfforddiant lle bo'r angen.

Mae llwyddiant yr erfyn 'Sylfaenol, Gwell, Gorau' wedi helpu hefyd i hysbysu'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu Dwyieithog ddiwethaf a'r bwriad yw symud ymlaen ag o fel glasbrint ar gyfer mynd ati'n weithredol i ddatblygu a chefnogi dulliau darparu dwyieithog rhagorol drwy'r Coleg cyfan. Rhennir arferion da mewn darparu addysg yn ddwyieithog yn ystod sesiynau datblygiad staff yn ogystal ag yn yr Ŵyl Ymarfer a gynhelir ar ddiwedd y flwyddyn i diwtoriaid o bob rhan o'r coleg.

colegsirgâr colegceredigion

# CANLLAW I GREU EICH YSTAFELL DDOSBARTH DDWYIEITHOG

## SYLFAENOL

1. Ewch ati i gyfarch eich dysgwyr yn Gymraeg o'r cychwyn cyntaf - Bore da, Pnawn da, Diolch. Arddangoswch bosteri cyfarchion Cymraeg – creu'r ethos dwyieithog.
2. Atgoffwch y dysgwyr o fanteision bod yn ddwyieithog.
3. Nodwch eich dysgwyr sy'n siaradwyr Cymraeg fel eich bod yn gwybod pwy ydynt a threfnwch grwpiau'r dysgwyr er mwyn rhoi cyfle iddynt siarad Cymraeg gyda'i gilydd.
4. Gwnewch yn siŵr bod dysgwyr yn gwybod bod ganddynt yr hawl i:
   - Diwtor personol cyfrwng Cymraeg.
   - Llyfrynnau croeso
   - Adnoddau Cymraeg
   - Cael eu hasesu'n Gymraeg 'os ar gael'.
   - Cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg
5. Rhowch holl benawdau eich cyflwyniadau PowerPoint a google classroom yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf - amlygwch dermau pwnc-benodol.
6. Taflenni a gynhyrchwyd gan y tiwtor, rhai papur ac electronig hefyd, i fod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf
7. Rhaid i'r holl arwyddion a phosteri fod yn ddwyieithog - dangos fersiynau Cymraeg a Saesneg  Dangoswch dermau Cymraeg pwnc-benodol/ geirfaoedd ar waliau.
8. Trefnwch leoliadau gwaith dwyieithog i ddysgwyr sy'n awyddus i wella eu sgiliau
9. Estynnwch wahoddiad i gyflogwyr neu siaradwyr gwadd dwyieithog roi sgyrsiau pwnc-benodol a gofynnwch iddynt dynnu sylw at fanteision dwyieithrwydd yn eu sefydliad a gyda chwsmeriaid
10. Trefnwch i'r dysgwyr gymryd rhan ym mhob un o'r digwyddiadau Cymraeg a gynhelir gan y tîm Dwyieithrwydd. Ewch ati i gynnwys eich dysgwyr i gyd mewn Diwrnodau Dathlu Cymraeg. Anogwch ddysgwyr i gymryd rhan yng nghystadlaethau'r Urdd
11. Ewch ati i arddangos 'Gair Cymraeg yr Wythnos' a'i ddiweddaru

## GWELL

Fel Sylfaenol ond gyda'r ychwanegiadau canlynol:

1. Defnyddiwch y Gymraeg yn anffurfiol gyda'ch dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi fel ei bod yn dod yn 'normal'
2. Nodwch ddysgwyr sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl a'u hannog i gynhyrchu peth o'u gwaith yn Gymraeg
3. Dewiswch dasgau dwyieithog hawdd sy'n realistig e.e. y rheiny sy'n anelu at ddarparu gwasanaeth ar gyfer cymunedau Cymraeg/dwyieithog (taflenni gwybodaeth dwyieithog, bwydlenni, posteri/hysbysebion, cyflwyniadau)
4. Defnyddiwch fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn eich dosbarth i ynganu geiriau neu gofynnwch iddynt am y term neu'r gair yn Gymraeg Ewch ati i ethol Hybwr y Gymraeg ar gyfer y dosbarth i'r diben hwn.
5. Pob cyflwyniad PowerPoint a gynhyrchwyd gan y tiwtor i fod yn ddwyieithog - y Gymraeg yn gyntaf ar yr ochr chwith. Rhannwch y dudalen yn golofnau fel bod y tîm cyfieithu'n gallu mewnbynnu'r fersiwn Gymraeg.
6. Defnyddiwch glipiau clyweled/fideos yn Gymraeg gydag isdeitlau
7. Rhowch yr offer electronig i'ch dysgwyr i'w cefnogi - anogwch nhw i lawrlwytho'r apiau megis Cysgliad, ap Geiriaduron neu apiau penodol ar gyfer eich meysydd pwnc o Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (https://www.porth.ac.uk/)
8. Defnyddiwch enghreifftiau Cymraeg neu leol er mwyn hyrwyddo Cymru, yr iaith Gymraeg a busnes/diwydiant a diwylliant Cymru mewn darlithoedd, astudiaethau achos

## GORAU

Fel Sylfaenol a Gwell ond gyda'r ychwanegiadau canlynol:


1. Ar ddechrau'r sesiwn ewch dros dermau allweddol – gofynnwch i ddysgwyr ddweud wrthych beth yw'r fersiwn Gymraeg – rhowch e i fyny ar y sgrin.
2. Mewn gwaith grŵp, trefnwch sefyllfaoedd lle mae dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn gweithio'n ddwyieithog gyda dysgwyr nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg er mwyn iddynt ddatblygu sgiliau dwyieithog e.e. gweithio ar daflen ddwyieithog, cyflwyniad
3. Yr holl ddeunydd addysgu i fod yn ddwyieithog
4. Defnyddiwch eich sgiliau Cymraeg eich hun i addysgu'n ddwyieithog i'r grŵp cyfan fel bod hyn yn dod yn norm a'r dull disgwyliedig o addysgu
5. Ewch ati i greu disgwyliad bod dysgwyr yn cynhyrchu gwaith yn ddwyieithog neu'n Gymraeg
6. Dros 50% o'ch dysgwyr yn cynhyrchu rhai agweddau ar eu gwaith asesedig yn ddwyieithog.
7. Defnyddiwch fanc sylwadau Google wrth farcio

---

I'ch cefnogi edrychwch ar safle Cymraeg Google: https://sites.google.com/colegsirgar.ac.uk/cymraegcsgacc/home

Neu cysylltwch â'n Swyddogion Iaith Gymraeg - Menna Jones neu Lowri Evans.

Anfonwch adnoddau i'w cyfieithu drwy System Gyfieithu'r Porth neu e-bostiwch translate@colegsirgar.ac.uk



# Astudiaeth achos 6: Gwella gallu a hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg drwy ddarpariaeth ddwyieithog

**Amy Lewis, Coleg Penybont**

## Y cyd-destun a'r cefndir

Mae'r iaith Gymraeg yn integrol i hunaniaeth ddiwylliannol a chenedlaethol pobl Cymru. Yn 2017, ar 50fed pen-blwydd Deddf yr Iaith Gymraeg gyntaf, pan ddilëwyd y gwaharddiadau ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg, lansiodd Llywodraeth Cymru eu strategaeth i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg i filiwn erbyn 2050 ('*Cymraeg 2050*', 2017).

Un o'r ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru'n gweithio i gyflawni hyn yw manteisio ar y 200,000 o weithwyr sydd wedi eu cyflogi mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a sicrhau bod gan bawb ryw lefel o 'Gymraeg cwrteisi' er mwyn gallu cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr enw ar hyn yw'r Cynnig Rhagweithiol ('*Mwy na geiriau*', 2022). Mae'r Cynnig Rhagweithiol yn golygu y bydd darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn dod yn rhagweithiol o ran cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, heb fod angen i ddefnyddiwr gwasanaeth ofyn amdano. Diffinnir Cymraeg 'lefel cwrteisi' fel gallu i ddefnyddio lefel sylfaenol o Gymraeg, fel cyfarchion a chyflwyniadau a geiriau allweddol syml yn ymwneud â'r gweithle, yn ogystal â gallu darllen testunau byrion ('*Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd*', 2020).

Felly, yn unol â'r Cynnig Rhagweithiol, cynigiwyd cyrsiau Cymraeg i Oedolion rhad ac am ddim i staff sy'n gweithio mewn meysydd blaenoriaeth yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngholeg Penybont. Mae Coleg Penybont yn darparu addysg bellach, addysg uwch a dysgu seiliedig ar waith i fwy na 6,000 o ddysgwyr llawn amser a rhan amser, ac mae'n cyflogi mwy na 650 o aelodau staff ar draws pedwar campws. Mae lleoliad y Coleg hwn rhwng Caerdydd ac Abertawe. Yng nghyfrifiad 2021, adroddwyd bod llai na 10% o bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gallu siarad Cymraeg. Dyma un o'r siroedd gyda'r nifer lleiaf o siaradwyr yng Nghymru (Cyfrifiad 2021 Y Gymraeg yng Nghymru, 2022). Yn ystod haf 2023, cwblhaodd awdur yr astudiaeth achos hon y cymhwyster Mynediad i oedolion sy'n dysgu Cymraeg (CBAC, 2020).

Un rhan o rôl addysgu'r awdur yw darparu modiwlau i fyfyrwyr Mynediad i AU sy'n gobeithio symud ymlaen i'r brifysgol i astudio gwahanol broffesiynau iechyd - teitl un o'r rhain yw 'Cyfathrebu'n effeithiol mewn gofal iechyd'. Yn 2023-24, penderfynodd yr awdur ddarparu'r modiwl mor ddwyieithog ag y bo modd a chanolbwyntio ar wella Cymraeg 'lefel cwrteisi' y dysgwyr a'u dealltwriaeth o'r Cynnig Rhagweithiol. Parhaodd y ddarpariaeth ddwyieithog am 10 wythnos ac roedd yn cynnwys:

- cyfarch dysgwyr yn y Gymraeg
- adnoddau'n cael eu cyflwyno'n ddwyieithog
- cyrsiau byr perthnasol yn cael eu hymwreiddio mewn gwersi
- astudiaethau achos a throsolwg o'r deddfau yng Nghymru sy'n berthnasol i'r Cynnig Rhagweithiol
- ffocws ar eirfa Gymraeg
- cyfleoedd i ymarfer Cymraeg sgyrsiol
- cwblhau geirfa o ymadroddion Cymraeg defnyddiol
- gweithgareddau chwarae rôl gan ddefnyddio Swyddogion Datblygu'r Gymraeg yn y Coleg.

Mae nifer o sefydliadau wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru sy'n gallu cefnogi darpariaeth ddwyieithog, a daeth llawer o'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn yr ystafell ddosbarth o'r rhain. Maent yn cynnwys 'Yr Hwb' - sydd â chasgliad o offer ar-lein - a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n darparu adnoddau drwy 'Y Porth', yn arbennig i helpu colegau addysg bellach a phrifysgolion i greu cyfleoedd hyfforddi ac astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Effaith y fenter ar y myfyrwyr

Cyn i'r modiwl 10 wythnos ddechrau, didolodd y darlithydd holiadur oedd yn gofyn i ddysgwyr:

- roi sgôr i'w sgiliau siarad Cymraeg gan ddefnyddio Fframwaith y Gymraeg
- roi sgôr i'w hyder o ran defnyddio eu sgiliau siarad Cymraeg
- roi sgôr i ddangos pa mor bwysig yw'r gallu i gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu barn nhw
- roi ateb ysgrifenedig hirach yn esbonio eu hateb i'r trydydd cwestiwn.

Ailadroddwyd yr holiadur hwn ar ddiwedd y modiwl. Mae Fframwaith y Gymraeg a ddefnyddir wedi ei seilio ar Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd [Common European Framework of Reference for Languages (CEFR)] sy'n rhannu ieithoedd yn bedwar maes, sef gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Gall pobl roi sgôr iddyn nhw eu hunain ar y pedwar maes yma ar wahân, yn nhermau dim sgiliau (0) lefel mynediad (1), sylfaenol (2), canolradd (3), uwch (4) a hyddysg (5). Cynigiodd y darlithydd ddiffiniadau o'r pum opsiwn siarad y gallwch eu gweld isod. Yn wythnosol, rhoddodd hefyd docyn ymadael electronig yn gofyn beth roedden nhw wedi ei fwynhau'n fwyaf penodol am y ddarpariaeth ddwyieithog a beth roedden nhw'n teimlo allai gael ei wella.

Cyn y ddarpariaeth 10 wythnos, roedd y mwyafrif o'r ystyriaethau ynghylch pwysigrwydd gallu cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn gadarnhaol ac yn cynnwys sylwadau fel hyn:

> 'Rwy'n meddwl bod hyn yn bwysig oherwydd, yn anffodus, roedd yr iaith Gymraeg yn marw, ond nawr mae dechrau ffynnu eto, ac mae nifer gynyddol o bobl yn fodlon ceisio ei dysgu!'

> 'Mae'n bwysig cael rhywfaint o Gymraeg yn y sector gofal iechyd oherwydd efallai y bydd rhai cleifion yn Gymry Cymraeg ac y bydd angen y gofal cywir arnyn nhw.'

Fodd bynnag, cafwyd nifer o sylwadau mwy negyddol hefyd, fel hyn:

> 'Dydw i ddim yn ei ystyried yn bwysig iawn, oherwydd dydy pawb yng Nghymru ddim yn siarad Cymraeg. Mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd ysgrifennu yn Saesneg heb sôn am y Gymraeg.'

> 'Dydw i ddim yn meddwl ei bod hi'n bwysig i mi ddysgu Cymraeg am nad ydw i eisiau gweithio yng Nghymru a dydw i ddim eisiau'r straen ychwanegol o ddysgu iaith arall ar ben y cwrs.'

> 'Yn fy mywyd gwaith dydw i erioed wedi bod angen defnyddio'r Gymraeg.'

Roedd y mwyafrif o'r sylwadau anffurfiol yn yr ystafell ddosbarth o wythnos i wythnos yn gadarnhaol ar y mwyaf, gyda llawer o fyfyrwyr yn nodi eu bod yn mwynhau'r agwedd Gymraeg; ond, roedd lleiafrif oedd yn dal i fod ychydig yn anfodlon. Roedd mwyafrif y myfyrwyr yn fenywod (90%) 18-45 oed. Y rheiny oedd yn rhieni oedd â'r diddordeb mwyaf yn yr iaith mae'n ymddangos oherwydd gallent weld ei gwerth drwy gyfrwng eu plant a hyrwyddiad dwyieithrwydd mewn ysgolion.

Roedd dadansoddiad o'r adborth yn dangos bod y lefel o sgiliau siarad Cymraeg yr oeddent yn eu gosod eu hunain arnynt wedi gwella'n ddramatig:

| | Lefel 0 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dim lefel o sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. | Yn gallu dweud enwau lleoedd/ enwau cyntaf Cymraeg neu arwyddion Cymraeg yn gywir.<br>Yn gallu cyfarch a chyflwyno pobl eraill yn Gymraeg.<br>Yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol drwy agor a chau sgwrs yn Gymraeg.<br>Yn gallu rhoi a derbyn manylion personol. | Yn gallu deall hanfod sgwrs yn y Gymraeg.<br>Yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol, e.e. tasgau arferol neu weinyddol syml.<br>Yn gallu rhoi a derbyn gorchmynion a chyfarwyddiadau. | Yn gallu sgwrsio yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg mewn trafodaeth ac wrth roi gwybodaeth fanwl.<br>Yn gallu disgrifio pobl a lleoliadau. | Yn gallu cyfrannu'n effeithiol i gyfarfodydd o fewn eu meysydd gwaith eu hunain ac wrth ddadlau o blaid neu yn erbyn achos.<br>Yn gallu ymdrin â phobl yn y mwyafrif o sefyllfaoedd yn y Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg wrth ymdrin â sefyllfaoedd cymhleth. | Yn gallu ymdrin yn effeithiol gyda thrafodaeth gymhleth a chwestiynau yn Gymraeg.<br>Yn gallu addasu arddull yr iaith i gyfateb â phob sefyllfa ac angen. |
| Cynt | 33.3% | 51.1% | 13.3% | 0 | 0 | 2.2% |
| Wedyn | 8.8% (↓24.5%) | 35.3% (↓15.8%) | 55.9% (↑42.6%) | 0 | 0 | 0 (↓2.2 %) |

Roedd eu hyder mewn defnyddio'r sgiliau hyn wedi gwella hefyd:

| | Ddim yn hyderus o gwbl | Ddim yn hyderus iawn | Ychydig yn hyderus | Hyderus iawn |
|---|---|---|---|---|
| **Cynt** | 31.1 | 33.3% | 31.1% | 4.4% |
| **Wedyn** | 5.9% (↓25.2%) | 17.6% (↓15.7%) | 67.6% (↑36.5%) | 8.8% (↑4.4%) |

Roedd dealltwriaeth y myfyrwyr o bwysigrwydd siarad Cymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol wedi cynyddu hefyd:

| | Ddim yn bwysig o gwbl | Ddim yn bwysig iawn | Ychydig yn bwysig | Pwysig iawn |
|---|---|---|---|---|
| **Cynt** | 4.4% | 4.4% | 35.6% | 55.6% |
| **Wedyn** | 0 (↓4.4%) | 5.9% (↑1.5%) | 23.5% (↓12.1%) | 70.6% (↑15%) |

Hefyd, roedd y sylwadau ynghylch pwysigrwydd bron i gyd yn gadarnhaol erbyn hyn, gyda mwy o gydnabyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg ym maes gofal iechyd a newid tuag at adnabod ei heffaith ehangach ar gleifion a gweithwyr proffesiynol. Er enghraifft:

> 'Mae'n bwysig iawn cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru, fel gweithred o onestrwydd a pharch i siaradwyr Cymraeg.'

> 'Yn fy marn i, mae'n bwysig dysgu Cymraeg neu ddeall Cymraeg wrth weithio yn y sector gofal iechyd. Mae hyn yn gadael i bobl gael amrywiaeth o opsiynau gofal, gan roi cymorth ychwanegol i bobl os yw'r cleifion yn ddwyieithog.'

> 'Dw i'n teimlo ei bod hi'n bwysig iawn siarad neu ddeall Cymraeg sylfaenol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol am fod hyn yn sicrhau cyfathrebiad effeithiol gyda siaradwyr Cymraeg neu siaradwyr dwyieithog. Gall helpu i hyrwyddo a diogelu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, sy'n fath bwysig o hunaniaeth i bobl. Gall siarad Cymraeg wella boddhad a chanlyniadau cleifion. Gall ddangos parch at amrywiaeth ieithyddol a gwella ansawdd cyffredinol y gofal.'

Ar y cyfan, ym marn y myfyrwyr eu hunain, roedd eu sgiliau siarad Cymraeg, eu hyder mewn defnyddio'r sgiliau hyn a phwysigrwydd y Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol wedi cynyddu. Roedden nhw'n gadarnhaol am y ddarpariaeth ddwyieithog ac yn mwynhau cryfhau eu sgiliau.

## Effaith datblygiad proffesiynol ar yr awdur

O ran arferion addysgu'r awdur, roedd cwblhau'r cwrs Mynediad wedi rhoi hwb sylweddol i'w hyder a'i gallu i siarad Cymraeg sylfaenol. Fodd bynnag wrth geisio cyflwyno modiwl yn ddwyieithog, roedd hi hefyd yn sylweddoli cyfyngiadau ei gallu. Er ei bod hi'n gallu ymdopi'n iawn â chyfarchion a sgyrsiau sylfaenol yn y Gymraeg, roedd hi'n teimlo ei bod hi'n cael trafferth trafod termau cymhleth a deall llawer o'r cynnwys dwyieithog ar ei sleidiau. Roedd hyn yn gwneud iddi deimlo nad oedd hi'n ddigon da a'i bod hi wedi gorymestyn. Ar ôl ystyried pethau, ac ar ôl mynd i sesiynau am ddarpariaeth ddwyieithog, roedd hi'n cydnabod y byddai hi wedi gallu ymdrin â'r dasg yn fwy effeithiol gyda gwell cynllunio a pharatoad dros amser. Wrth symud ymlaen, mae hi'n bwriadu cadw ei dwyieithrwydd drwy ymarfer cyfarchion Cymraeg ac integreiddio strategaethau newydd, fel cyflwyno tri gair Cymraeg allweddol fesul sesiwn. Fodd bynnag, mae hi hefyd yn cydnabod yr angen i symleiddio ei dulliau, fel osgoi sleidiau dwyieithog gorlawn.

I barhau i ddatblygu sgiliau staff a gweithio ar yr agenda iaith Gymraeg, mae hi'n credu bod angen cael mwy o fuddsoddiad mewn staff addysgu, cyrsiau Cymraeg wedi'u teilwra'n fwy pwrpasol i oedolion, ac efallai ddatblygiad sgiliau gorfodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol penodol.

**Staff o Goleg Penybont a gwblhaodd raglen addysgu ddwyieithog - 'Ein Taith Iaith' yn llwyddiannus yn ddiweddar**



## Cyfeiriadau


Llywodraeth Cymru (2017) Adroddiad blynyddol 2017-18 Cymraeg 2050: *Miliwn o siaradwyr*
www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-miliwn-o-siaradwyr-adroddiad-blynyddol-2017-18.pdf

Llywodraeth Cymru (2020) Cymraeg. *Mae'n perthyn i ni i gyd*
www.llyw.cymru/cymraeg-maen-perthyn-i-ni-i-gyd

Llywodraeth Cymru (2022) Cynllun Pum Mlynedd 2022-27 *Mwy na geiriau*
www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2022-2027.pdf

Llywodraeth Cymru (2022) Y *Gymraeg yng Nghymru* (Cyfrifiad 2021)
Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021), LLYW.CYMRU

CBAC (2020) *Manyleb Lefel Mynediad (Cymraeg i Oedolion)*
www.cbac.co.uk/cymwysterau/cymraeg-i-oedolion-mynediad

Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd
The CEFR Levels - Common European Framework of Reference for Languages (CEFR) (coe.int)

# Astudiaeth achos 7: Y cynllun 'Cymraeg Gwaith+ mewn Addysg Uwch'

**Dr Owen Thomas, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

## Y cyd-destun a'r cefndir

Yn ystod 2022-23, darparodd y prifysgolion yng Nghymru gynllun dan y teitl 'Cymraeg Gwaith+', oedd yn rhan o'r cynllun 'Cymraeg Gwaith mewn Addysg Uwch' ehangach. Cafodd y cynllun ei gydlynu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'i noddi gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Roedd 'Cymraeg Gwaith+' wedi ei lunio ar gyfer staff addysgu oedd â lefel gweddol uchel yn barod o sgiliau Cymraeg, sef lefel Uwch+. Ei nod oedd cynyddu'r gweithlu sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym maes addysg uwch drwy baratoi darlithwyr ac aelodau eraill o'r staff addysgu yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23, trwy gyfrwng cyfres o sesiynau hyfforddi unigol mewn addysgu cyfrwng Cymraeg yn 2023-24, o dan oruchwyliaeth tiwtor personol. Yn wahanol i'r cynllun 'Cymraeg Gwaith' trosfwaol, cafodd y staff a gymerodd ran yn 'Cymraeg Gwaith+' hyfforddiant unigol drwy ddilyn maes llafur a oedd wedi ei deilwra'n benodol iddyn nhw. Yn rhan o'r cynnig, cafodd y staff hefyd y cyfle yn ystod y flwyddyn hyfforddi i gwblhau'r pecyn Codi Hyder, a ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Ym mis Gorffennaf 2022, derbyniodd bob prifysgol yng Nghymru wahoddiad gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ymuno â'r cynllun drwy lythyr ymgeisio. Yn ystod haf 2022, cyflwynodd y prifysgolion eu ceisiadau a'u henwebiadau i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sef y corff sy'n gyfrifol am ariannu a chydlynu'r cynllun yn genedlaethol. I sicrhau bod yr ariannu wedi ei dargedu'n strategol, atodwyd nifer o amodau i'r cynllun. Er enghraifft, ni ddylid cael unrhyw rwystr cytundebol sy'n atal staff rhag addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hadran, ac hefyd roedd angen i brifysgolion sicrhau y byddai cyfle i'r ymgeisydd gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod y flwyddyn ddilynol. Derbyniodd yr holl geisiadau llwyddiannus arian i dalu costau cyflogi tiwtor personol yn y brifysgol.

## Datblygiad proffesiynol

Dechreuodd yr hyfforddiant yn ystod mis Hydref 2022, a daeth i ben yn ffurfiol cyn diwedd mis Gorffennaf 2023. Roedd y staff wedi eu cofrestru ar y system TG yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a chynhaliwyd sesiynau hyfforddi unigol yn y prifysgolion, naill ai ar y campws neu ar Microsoft Teams. Yn ystod mis Hydref 2022, ac mewn ymgynghoriad â phob cyfranogwr, lluniwyd maes llafur unigol gan y tiwtor personol cyn dechrau'r hyfforddiant wythnosol, a fyddai'n parhau hyd haf 2023. Cafodd tiwtoriaid oedd yn cefnogi'r staff academaidd eu hariannu ym Mhrifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, a Phrifysgol De Cymru. Roedd rhai o'r aelodau staff hyn wedi dilyn modiwlau 'Cymraeg Gwaith' yn y gorffennol, ond roedd aelodau eraill o staff yn ymuno â 'Chymraeg Gwaith' am y tro cyntaf.

## Yr effaith ar y cyfranogwyr a'r myfyrwyr

Mae'r Athro Sally Holland yn Athro mewn Gwaith Cymdeithasol ac yn Gyn-gomisiynydd Plant Cymru wedi ei seilio ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd ei chais yn nodi y byddai'n cael y cyfle yn ystod 2022-23 i addysgu ar fodiwl MA mewn Gwaith Cymdeithasol, gan felly sicrhau bod grŵp o chwe siaradwr Cymraeg yn cael cyfle, am y tro cyntaf, i gydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd angen cymorth i helpu i baratoi deunyddiau Cymraeg ac i'w galluogi hi i gael digon o hyder i gymryd rhan yn eu trafodaethau. Yn hytrach na dilyn cwricwlwm neu werslyfr cwrs penodol, roedd angen i'r tiwtor ganolbwyntio ar nifer o elfennau yn ystod hyfforddiant Sally - sef, ymarfer sgwrsio, patrymau iaith a sgiliau ysgrifennu.

Mewn sgwrs yng ngwanwyn 2024, dywedodd Sally bod y cwrs wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar lefel ei hyder yn Gymraeg a bod y gwersi wythnosol wedi rhoi 'harbwr diogel' iddi i drafod ei sgiliau iaith a'i dulliau o ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth. Er mai dim ond dau o siaradwyr Cymraeg oedd ar y modiwl MA yn 2023-24, bydd pump y flwyddyn nesaf ac mae'r ysgol yn awyddus i ddatblygu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'i chyfleoedd cymdeithasol anffurfiol i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, y mae hi'n hapus i'w gefnogi. Roedd holiaduron y modiwlau'n dangos bod y myfyrwyr yn croesawu'r cyfle i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gwerthfawrogi'n arbennig y cyfle i ymgyfarwyddo â therminoleg broffesiynol sy'n gysylltiedig â'r maes drwy'r sesiynau hyn.

Roedd angen i Dr Helen Waller-Evans, sy'n ddarlithydd yn Ysgol y Biowyddorau ym Mhrifysgol Caerdydd, feistroli Cymraeg ffurfiol a thermau gwyddonol er mwyn gallu defnyddio'r iaith yn ei gwaith o ddydd i ddydd. Mae hi'n teimlo bod 'Cymraeg Gwaith+' wedi ei helpu hi i gyflawni'r nodau hyn ac wedi ei helpu hi'n arbennig i gefnogi dau fyfyriwr doethuriaeth sydd wedi eu noddi gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, wrth iddynt ysgrifennu eu traethodau yn y Gymraeg ac wrth iddynt baratoi ar gyfer eu harholiadau ar lafar. Roedd hi hefyd wedi cyfrannu at ddatblygiad termau gwyddonol Cymraeg newydd ers gwneud y cynllun ac mae hi'n awyddus i gynnig rhagor o gyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg, gan felly agor cyfleoedd addysgol i'r rheiny sy'n astudio yn yr Ysgol.

Yn yr un modd, roedd Dr Margot Saher o Brifysgol Bangor eisiau datblygu ei geirfa broffesiynol a'i sgiliau cyflwyno yn y Gymraeg, yn ogystal â rhannu modiwlau gyda darlithydd arall sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion. Erbyn 2023-24, roedd Dr Margot Saher yn cyfrannu at fodiwl am ddadansoddi data drwy gyfrwng y Gymraeg, cynnal sesiynau tiwtora gyda myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg gyda myfyrwyr sy'n ysgrifennu traethodau yn y Gymraeg, ochr yn ochr â gweithio ar erthygl ymchwil yn y Gymraeg. Mae hi'n teimlo bod 'Cymraeg Gwaith+' nid yn unig wedi cynyddu ei hyder mewn defnyddio'r iaith ond hefyd wedi cael effaith gadarnhaol yn ehangach ar y gymuned o staff Prifysgol Bangor sy'n dysgu Cymraeg. Trwy'r hyfforddiant a dderbyniodd gyda 'Cymraeg Gwaith+', mae hi hefyd wedi cynyddu'r cyfleoedd academaidd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i'r myfyrwyr.

Roedd meysydd o gefnogaeth wedi eu cynrychioli ar y cynllun hyfforddi hefyd. Er enghraifft, roedd Ruth Elliott yn diwtor sgiliau astudio i fyfyrwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae prinder arbennig o unigolion sydd â'r sgiliau priodol, yn cynnwys sgiliau iaith, i gefnogi myfyrwyr cyfrwng Cymraeg sydd efallai angen cymorth ychwanegol. Nododd Ruth mewn sgwrs yn 2024, bod y cyfle i gynnig darpariaeth sgiliau astudio i'r myfyrwyr hynny drwy gyfrwng y Gymraeg yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar eu lefelau cadwraeth ac yn helpu i sicrhau bod eu canlyniad gradd terfynol yn adlewyrchu eu gallu'n briodol. Roedd hi'n teimlo na fyddai wedi gallu darparu cymorth fel hyn drwy gyfrwng y Gymraeg os na fyddai wedi cael y cyfle i wneud yr hyfforddiant 'Cymraeg Gwaith+'.

# Astudiaeth achos 8: Dod yn brifysgol sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (TrACE)

**Dr Caroline Hughes, Prifysgol Wrecsam**


## Y cyd-destun a'r cefndir

Mae Prifysgol Wrecsam, sydd wedi ei seilio yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd a rhaglenni astudio, y mae gan lawer ohonyn nhw ffocws galwedigaethol. Yn 2023-24, daeth y Brifysgol yn gyntaf yng Nghymru a Lloegr am gynhwysiant cymdeithasol am y chweched flwyddyn yn olynol a chafodd ei gosod ymysg y deg gorau yn y DU am ansawdd addysgu yn 'Good University Guide 2024' y Times a'r Sunday Times.

Mae Prifysgol Wrecsam yn gweithio i ddod yn sefydliad sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod [Trauma and Adverse Childhood Experience (TrACE)], fel un o'r prifysgolion cyntaf o'i math yn y DU. Mae'r prosiect hwn yn cael ei wneud mewn partneriaeth â Hyb ACE Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r prosiect 'ystyriol o TrACE' yn ymgorffori ymrwymiad cryf y Brifysgol i sicrhau lles ac iechyd meddwl a'u gwaith i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Dyma un o flaenoriaethau allweddol strategaeth partneriaeth cenhadaeth ddinesig y Brifysgol, sy'n cydweithio â phartneriaid i ymdrin ag anghydraddoldeb cymdeithasol yng Ngogledd Cymru.

Mae bod yn ystyriol o TrACE yn golygu datblygu gwell dealltwriaeth o drawma ac effaith adfyd i bawb sy'n gweithio ac yn astudio ym Mhrifysgol Wrecsam, i alluogi pawb i ddatblygu a ffynnu yn well a chael eu trin gyda charedigrwydd, tosturi a pharch. Nid yw dod yn ystyriol o TrACE yn trin trawma a symptomau; mae'n datblygu agwedd gyffredinol a sylfaenol sy'n cydnabod bod adfyd a thrawma yn bosibilrwydd ac yn cydnabod bod yr unigolion i gyd yn gallu chwarae rhan mewn cefnogi hyn drwy athroniaeth wedi ei seilio ar gryfderau.

**Ffigur 1: Strwythur y prosiect**




Yn tanategu darpariaeth yr uchod mae cyfathrebu ac ymgysylltu clir, gwaith partneriaeth effeithiol, ac ymchwil, monitro a gwerthuso cryf.

Yn ystod yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Brifysgol wedi sefydlu rhwydwaith o staff, myfyrwyr a phartneriaid sydd â diddordeb yn hyn. Gan ddefnyddio'r pecyn cymorth TrACE, a luniwyd gan Hyb ACE Cymru, defnyddiwyd proses hunanasesu i fyfyrio ar ddiwylliant, arferion a phrosesau cyfredol. Defnyddiwyd lens sy'n ystyriol o drawma i gefnogi cynllun a gweithrediad y strategaethau, amcanion a chynlluniau presennol, a darnau penodol o waith a gweithgareddau a gychwynnwyd ac a arweiniwyd o fewn strwythur y prosiect TrACE ei hun.

Rhoddir ystyriaeth i ddylanwadau amgylcheddol ar ddysgu, ac mae gan y prosiect grŵp ffrwd waith 'amgylchedd ffisegol' ac mae wedi ffurfio partneriaeth gyda'r gymdeithas ar gyfer dyluniad sy'n ystyriol o drawma, y '[Trauma-informed Design (TiD) Society](#)', yn Unol Daleithiau America. Mae ymchwil ar waith yn awr i ddatblygu erfyn amgylchedd ffisegol i ddarparwyr addysg uwch. Bydd yr erfyn hwn sydd wedi ei seilio ar dystiolaeth yn helpu i hysbysu penderfyniadau ar gyfer cynnal a chadw, adnewyddu a rhaglenni adeiladu o'r newydd wrth symud ymlaen, yn ogystal â hyrwyddo lles, diogelwch a rheoliad emosiynol ar draws y campysau.


Mae Prifysgol Wrecsam hefyd yn cynnal Cymuned Ymarfer Gogledd Cymru, gan ddod â sefydliadau at ei gilydd sy'n gweithio drwy lens sy'n ystyriol o drawma, rhannu arferion da, archwilio her, hyrwyddo datblygiad proffesiynol, a chryfhau cysylltiadau cymunedol i annog newid cymdeithasol.

## Yr effaith ar y staff

Mae'r prosiect yn rhan o Rwydwaith o Gymdeithion y Tîm Datblygu Academaidd (Tîm DA). Mae Cymdeithion y Tîm DA yn gydweithwyr sy'n gyflogedig mewn swyddi academaidd ac mewn gwasanaethau proffesiynol sy'n gweithio 'traws-systemau' ar brosiectau datblygu integredig (Heron et al 2018; Taylor 2018; Taylor 2020). Nod y Tîm DA yw gyrru a chefnogi datblygiad dysgu ac addysgu traws-sefydliadol mewn ffordd ddosbarthedig. Mae'r dull hwn yn allweddol i welliant ym Mhrifysgol Wrecsam ac, yn 2021, enillodd y Tîm DA Wobr am Ragoriaeth Addysgu sef y Wobr Gydweithredol am Ragoriaeth Addysgu, a redir gan Advance HE.

Ar hyn o bryd, mae gan grŵp TrACE y Tîm DA 26 o aelodau ac mae ganddo'r aelodaeth fwyaf o'r holl grwpiau yn Rhwydwaith y Tîm DA.

**Ffigur 2: Strwythur y Tîm DA**




Anogir holl staff Prifysgol Wrecsam i fynychu sesiynau rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth mewn perthynas â'r dull TrACE. Cynhaliwyd sesiynau i adrannau megis Marchnata a Recriwtio, ac mae tiwtoriaid personol wedi mynychu sesiynau pwrpasol hefyd i helpu i gefnogi dysgwyr yn y ffordd orau a hyrwyddo llesiant staff. Hefyd, mae cyfleoedd mewn darlithoedd ar gael i siaradwyr gwadd, gan ddangos effaith dysgu trawsgwricwlaidd. Mae modiwl e-ddysgu'n cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei lansio i'r staff i gyd ac yn cynnwys myfyrwyr, a bydd yn adeiladu ar y gwaith codi ymwybyddiaeth a gweithdai sy'n ystyriol o drawma sydd wedi eu darparu hyd yn hyn.

Dyma rywfaint o'r adborth cadarnhaol a dderbyniwyd o'r sesiynau tiwtora personol:

> Cyflwyniad gwych i diwtora personol ar gyfer staff sy'n newydd i'r rôl! Roedd yn ymdrin â llawer o wybodaeth berthnasol megis polisïau a gweithdrefnau a chefais y dull sy'n ystyriol o drawma yn ddefnyddiol.

> Llawn gwybodaeth, yn cynnwys elfen wych o ddull sy'n ystyriol o drawma. Mor bwysig i daith bersonol.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi ystyried arweiniad polisi drwy lens TrACE. Mae aelodau o dîm y prosiect TrACE wedi cymryd rhan yn y gwaith o gynhyrchu'r 'Canllawiau ar gyfer Polisi ac Arfer sy'n Ystyriol o Drawma'. Nod y canllawiau yw sicrhau bod polisïau yn hawdd cael gafael arnynt ac wedi eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n sicrhau bod modd eu defnyddio yn ystod cyfnodau o drallod, pan mae iaith gyfreithiol gymhleth yn gallu llethu rhywun yn aml iawn. Mae'r enghreifftiau o ystyriaethau polisi'n cynnwys cyfathrebu clir ac ystyrlon sy'n cydnabod natur gyfathrebol ymddygiad, ac yn osgoi labelu, gan sicrhau bod termau'n gydnaws â dulliau sy'n ystyriol o TrACE.

Mae'r canllawiau hyn yn cael eu treialu ar hyn o bryd, mewn cydweithrediad ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb Prifysgol Wrecsam, gyda'r tîm Sicrhau Ansawdd. Darparwyd hyfforddiant cychwynnol i sicrhau bod staff yn gwybod sut i adolygu polisïau'n effeithiol. Cynigir cymorth anogaeth ynghyd â mewnbwn i'r tîm Sicrhau Ansawdd pan mae drafftiau wedi'u diweddaru ar gael o bolisïau, er mwyn iddyn nhw allu dysgu o adborth yn barhaus a hysbysu adolygiadau'r dyfodol.

> Mae'r Tîm Ansawdd a Rheoleiddio'n gobeithio adolygu'r holl reoliadau, polisïau a gweithdrefnau yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol. Yn rhan o'r adolygiad hwn, roeddem yn gobeithio ymgysylltu â mentrau allweddol y Brifysgol i hysbysu ein dogfennaeth adolygedig. Roeddem wedi cysylltu â Lisa a Caroline ac wedi dysgu am y fenter TrACE ac wedi cofrestru i wneud sesiwn hyfforddi i helpu i hysbysu ein dysgu yn y maes yma a sut y gallwn ei ddefnyddio. Roedd yr hyfforddiant yn llawn gwybodaeth a datgeliadau. O hyn rydym wedi datblygu cardiau fflach i ennyn diddordeb aelodau grŵp ymgynghori sy'n ein helpu ni i adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau a sicrhau ein bod yn eu datblygu nhw drwy lens sy'n ystyriol o drawma.
>
> Helen Weller, Pennaeth Ansawdd, Prifysgol Wrecsam

Gwerthuswyd y prosiect TrACE i fonitro cynnydd ac effaith y dull sy'n ystyriol o drawma. Cyflwynodd Dr Caroline Hughes ddull y Brifysgol o ymdrin â'r gwerthusiad hwn mewn cynhadledd Hyb ACE Cymru ym mis Chwefror 2024, i rannu arferion da ymysg cydweithwyr. Yn y broses werthuso, roedd y tîm yn canolbwyntio'n fwriadol ar adrodd am leisiau pobl. Bydd y gwerthusiad yn cael ei ailadrodd bob dwy flynedd er mwyn parhau i ddysgu o brofiadau'r defnyddiwr ac esblygu ymagwedd y prosiect.

## Yr effaith ar y myfyrwyr

Mae Prifysgol Wrecsam yn denu demograffeg eang o ddysgwyr trwy ddarparu amgylchedd cefnogol, maethlon, ac yn ceisio grymuso myfyrwyr o bob cefndir, drwy roi'r cymorth iddyn nhw y maent ei angen i lwyddo ac, yn eu tro, roi sgiliau iddyn nhw y maent eu hangen y tu hwnt i'w hastudiaethau. Mae'r dull TrACE, fel y dangoswyd, yn canolbwyntio ar athroniaeth wedi ei seilio ar gryfderau, gan gydnabod cryfderau unigol a datblygu gwytnwch. I greu diwylliant o ddealltwriaeth a thosturi, mae datblygu perthnasoedd cadarnhaol a meithringar ym Mhrifysgol Wrecsam yn flaenoriaeth.

Mabwysiadwyd dull cwbl gydweithredol gyda chyfranogaeth myfyrwyr wrth galon y prosiect. Darparwyd gweithdai i ddysgwyr gan yr arweinwyr sy'n fyfyrwyr, lle'r oeddent yn cynnig trosolwg o fod yn ystyriol o drawma. Mae 20 o fyfyrwyr yn hyrwyddwyr TrACE cofrestredig erbyn hyn, sy'n cefnogi'r dull ac yn cynyddu ymwybyddiaeth drwy drafodaethau, cyflwyniadau a digwyddiadau. Cynigir hyfforddiant hefyd i aelodau o gyngor a chymdeithasau Undeb y Myfyrwyr. Y dull cyd-gynhyrchiol ac unedig hwn sy'n gyrru newidiadau ystyrlon ac yn dod â'r budd mwyaf i fyfyrwyr, staff a sefydliadau partner. Yng ngeiriau myfyriwr sy'n astudio Lles ac Iechyd Meddwl, lefel 6:

> ‘Mae bod yn hyrwyddwr TrACE wedi rhoi'r cyfle i mi i ddefnyddio'r wybodaeth a gefais yn y brifysgol a gweld sut y gellir ei rhoi ar waith mewn amrywiol leoliadau fel ysgolion, gweithleoedd, a'r Brifysgol ei hun. Mae hefyd wedi fy helpu gyda fy astudiaethau, drwy adael i mi gwblhau fy nysgu sy'n seiliedig ar waith o fewn y tîm. Mae hyn wedi rhoi sgiliau gwerthfawr i mi, megis rhwydweithio, rhoi cyflwyniadau a chydweithio â'r gymuned o'm cwmpas. Mae wedi fy nysgu sut i ddod â grŵp amrywiol o bobl at ei gilydd i rannu diddordeb cyffredin a chanfod ffyrdd arloesol o anfon neges allan i lawer o bobl. Bydd y ddau sgil yma'n hanfodol ar gyfer fy llwybr gyrfaol yn y dyfodol.’

## Casgliad

Doedd cychwyn ar y daith i fod yn brifysgol sy'n ystyriol o TrACE erioed wedi ymwneud â chyrraedd cyrchnod. Y bwriad erioed oedd cael cylch parhaus o adolygiadau a symud ymlaen. Mae tîm y prosiect yn y broses o adnewyddu'r hunanasesiad gwreiddiol a bydd yn defnyddio'r cyfle i ddatblygu syniadau ymhellach a blaenoriaethu gwaith prosiect, felly mae'n parhau i ymateb i anghenion y sefydliad.

## Cyfeiriadau


Heron, C, Horder, S, Richardson, J a Taylor, C (2018) 'The distributed educational development team', *Educational Developments* 19, cyfrol 2, tud. 11-14

Taylor, C (2018) 'Distributed academic development for leading educational change. Report on evaluation of effectiveness', Efrog: Advance HE www.advance-he.ac.uk/knowledge-hub/distributed-academic-development-leading-educational-change

Taylor, C (2020) 'The distributed educational development team: A case study' yn rhan o Devecchi, C a Potter, J (golygyddion) *Delivering Educational Change in Higher Education* Llundain: Routledge

# Astudiaeth achos 9: Gwytnwch: A ddylem ni addysgu hyn fel sgil astudio?

**Sadie Thackaberry, Coleg Cambria**

## Y cyd-destun a'r cefndir

Yn ystod y pandemig, gorfodwyd saib ar y byd, chwalwyd y normau a gwelwyd newidiadau pellgyrhaeddol yn ein harferion. Mewn addysg gwelwyd amhariad ar raddfa eang, gyda'r symud at ddysgu ar-lein wedi'i rwystro gan ddiffyg profiad mewn dulliau darparu digidol, problemau cael Wi-Fi mewn lleoliadau anghysbell, a rhwystrau i fyfyrwyr oedd angen cymorth cefnogol, fel y rheiny gydag anghenion dysgu ychwanegol, neu oedd heb ddyfeisiau neu fannau tawel i astudio (El Saheli-Elhage 2021; Naik et al 2021).

Roedd yr adroddiadau a gafwyd cyn y pandemig am iechyd meddwl myfyrwyr yn achosi pryder (Lipson et al, 2018), ac eto yn dilyn y pandemig, mae'r broblem a ddatgelwyd yn enfawr. Mae'r cyfnodolyn 'The Lancet' yn adrodd bod COVID-19 wedi cael effaith niweidiol gydag achosion o anhwylderau iselder mawr yn codi o 53.2 miliwn ac anhwylderau gorbryder yn codi o 76.2 miliwn drwy'r byd i gyd (Santomauro et al, 2021), gan effeithio fwyaf ar yr unigolion iau. Dywedodd y myfyrwyr eu bod yn teimlo'n ynysig yn ystod y pandemig ac yna'n bryderus unwaith yr agorodd y byd yn ôl eto (McKinlay et al, 2021). Daeth y problemau hyn i mewn i amgylchedd yr ystafell ddosbarth hefyd a rhwystro cynnydd y myfyrwyr tuag at amcanion addysgol, gan arwain at y syniad o addysgu gwytnwch - er nad ydych yn gallu trwsio'r broblem i'r myfyriwr, efallai y gallwch chi eu helpu i ymdopi ac addasu i'r adfyd a brofwyd ganddynt.

Wedi'i ysbrydoli gan daith iechyd meddwl bersonol, darparodd y pandemig gyfle i awdur yr astudiaeth achos hon gymryd cwrs ar-lein gan Brifysgol Yale am wyddoniaeth lles dan y teitl 'Science of Wellbeing'. Mae cysyniadau fel ymdrin â disgwyliadau a goresgyn rhagfarnau'n derbyn sylw drwy gynnwys wedi'i recordio, darlleniadau ac asesiadau adolygu, ac eto efallai mai un o'r agweddau pwysicaf oedd yr ôl-syllu dan arweiniad. Roedd y cwrs byr yn datgelu'r rhesymau pam y byddai rhywun yn ymdrin ag amgylchiadau bywyd mewn ffordd arbennig, gan roi esboniad seicolegol ac esboniad biolegol. Roedd hynny wedi golygu bod y sylfaen hwn yn hygyrch a chyffyrddadwy i'r dasg osodedig o ddylunio amgylchedd i helpu rhywun, fel unigolyn, i newid ymddygiadau nad ydynt yn ddymunol neu sy'n cael eu derbyn yn ddifeddwl. Adolygu, myfyrio ac ail ysgrifennu nodau personol: dyma oedd hanfod y profiad dysgu personol a phroffesiynol hwn. Arweiniodd hyn at ddarllen pellach am y pynciau, gyda chefnogaeth llyfrau megis '*Grit*' gan Angela Duckworth, a datblygiad menter addysgu benodol i fyfyrwyr sy'n astudio ar lefel addysg uwch yng Ngholeg Cambria.

## Menter gwytnwch

Crëwyd ac arweiniwyd prosiect ymchwil-weithredu yn 2021 gyda grŵp o 20 myfyriwr oedd yn astudio (ar lefelau 4 a 5) ar y rhaglen HND mewn Rheolaeth Anifeiliaid. Roedd yn rhaid i'r fenter hon, a ddarparwyd wyneb yn wyneb, symud i ddarpariaeth o bell oherwydd y cyfnod clo cenedlaethol yng Nghymru. Dros bum wythnos, arweiniwyd y myfyrwyr drwy'r cysyniad o wytnwch, gan edrych ar yr ystyriaethau rhyngweithiol a ganlyn:

- myfyrio ar yr hyn yr oedd gwytnwch yn ei olygu iddyn nhw
- dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau personol
- archwiliad o'r pethau sy'n sbarduno straen ynddynt
- adnabod yr hyn yr oedden nhw ei eisiau - nid yr hyn roedden nhw'n meddwl eu bod ei eisiau
- y gallu i ddweud na.

Roedden nhw'n greadigol ac yn cael eu hannog i fod â'r rhyddid i fethu ac i gymryd risgiau ac ymarfer y gelfyddyd o fod yn ddiolchgar. Roedd y pum sesiwn wedi eu creu o dair elfen a addysgir wedi eu hymwreiddio i mewn i sesiynau sgiliau astudio'r myfyrwyr am awr yr wythnos, gyda dau sesiwn arall yn ystod eu hamser tiwtora wythnosol, a'r olaf yn caniatáu'r lle i ymarfer ac ymgysylltu ag elfennau o'r fenter.

Un esiampl o elfen a addysgir, a ddarparwyd yn wythnos un ac a ysbrydolwyd gan y cwrs dysgu proffesiynol, oedd pan ofynnwyd i'r garfan ystyried y broses o osod nodau yn unigol. Caniatawyd i'r myfyrwyr gael tri nod, gyda'r amod bod y rhain yn cael eu hystyried yn barod ac ar waith cyn y pwynt hwn mewn amser. Yna gofynnwyd i'r myfyrwyr lunio rhestr o hyd at 10 peth y maen nhw eu heisiau. Yn y sesiwn wedyn, cawsent eu tywys drwy'r broses o ddadansoddi'r rhestr o'r pethau roedden nhw eu heisiau (nid oedd angen i'r rhain fod yn eiddo anfyw) a phenderfynu a oedden nhw'n fodlon gwneud y gwaith er mwyn eu cael nhw. Diben yr ymarfer hwn oedd darparu eglurder angenrheidiol iawn i'r myfyriwr, oherwydd yn aml iawn mae rhywun yn meddwl eu bod nhw eisiau rhywbeth yn fawr, neu'n rhwystredig o ran sut i'w gael, ac yn gweld cyfyngiadau fel rhwystrau am nad ydyn nhw wedi asesu'r ffordd ymlaen yn briodol.

Achosodd y dasg hon i'r myfyrwyr naill ai dynnu oddi ar eu rhestr y pethau hynny roedden nhw eu heisiau ond nad oeddent yn fodlon gweithio amdanynt, neu ail gynnau angerdd am 'beth penodol roedden nhw ei eisiau'; roedden nhw'n symleiddio pethau neu'n canfod ffordd newydd ymlaen. Roedd rhan olaf y sesiwn hwn yn gofyn i'r myfyrwyr gyfateb yr hyn roedden nhw ei eisiau gyda'r hyn roedden nhw wedi eu gosod fel targedau. Roedd rhai'n gweld bod y 'pethau roedden nhw eu heisiau' yn fwy addas i gael eu hystyried fel nodau, ac efallai'n fwy o flaenoriaeth iddyn nhw ar y pwynt hwnnw mewn amser, ac felly roedd symudiad yma hefyd. Roedd y neges yn y fan yma'n neges am yr angen i newid y ffocws ac archwilio'r defnydd o ynni, oherwydd yn aml iawn rydym yn treulio amser ar y pethau hynny yr ydym efallai'n credu ein bod eu heisiau, ac yn treulio amser yn ansicr ynglŷn â sut i weithio tuag at ein nodau. Mae'r cysyniad craidd o ddatblygu gwytnwch yn ymwneud â chymryd yr amser i fyfyrio'n onest ac i ystyried sut i symud ymlaen.

Yn ystod y cyfnod o bum wythnos, gofynnwyd i'r myfyrwyr hefyd gwblhau adrannau mewn dyddiadur gwytnwch personol, i dracio eu cynnydd eu hunain. Ar y cyfan, roedd y myfyrwyr yn tueddu gweld y dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau yn anodd am eu bod yn gorddadansoddi'r gwendidau ac yn gorbwysleisio'r bygythiadau. Er ei fod yn cymryd ychydig o amser, roedden nhw yn y pen draw'n dechrau mwynhau'r arfer o fod yn ddiolchgar unwaith yr oedd yr arfer wedi ei sefydlu. O edrych yn ôl, y ddau ddarn mwyaf llwyddiannus ar gyfer y garfan hon oedd pan oedden nhw'n dechrau rhoi cynnig ar greadigedd a chymryd risgiau. Ysgrifennwyd cerddi, peintiwyd lluniau, ceisiwyd canu caneuon newydd ar offerynnau cerddorol a chafwyd rhywfaint o waith coed a phobi hefyd. Roedd rhai unigolion yn teimlo'n anghyfforddus yn plymio i mewn i greadigedd yn llawn, ond roedden nhw'n dal i roi cipolwg ar fod yn greadigol ac yn creu amserlenni astudio fyddai'n helpu i'w tywys nhw drwy'r flwyddyn. Y rhai oedd yn fodlon cymryd risgiau oedd yn dangos y dystiolaeth orau efallai o dwf. O'r gwersi 'gyrru' cyntaf, i gyfaddef nad oedden nhw'n iawn a chymryd y camau cyntaf i sicrhau cymorth, i ymuno â champfa a gwneud ymarfer corff o flaen pobl yn hytrach na gyda'r nos ar eu pennau eu hunain - penderfynodd y myfyrwyr hyn beth oedd yn teimlo'n anghyfforddus iddyn nhw a sut roedden nhw eisiau tyfu, yna aethent amdani.

## Dwy enghraifft o fyfyrwyr yn datblygu eu creadigedd







Er bod y dyddiaduron yn darparu naratif, cynhaliwyd grwpiau ffocws i gefnogi casgliad. Nod cyffredinol y prosiect gweithredu oedd darparu pwynt myfyrio, sicrhau twf mewn hunanymwybyddiaeth ac, yn y pen draw, gefnogi gwytnwch y myfyrwyr. Ac eto, a oedden nhw'n ystyried hyn yn sgil astudio? A ddylai hyn gael lle ar gwrs lefel prifysgol? Gofynnwyd i'r grŵp ffocws beth roedden nhw'n ei ystyried yn sgil astudio ar gyfer addysg uwch, a'r awgrymiadau arferol a wnaed oedd:

- rhoi cyfeiriadau
- ysgrifennu adroddiadau
- sgiliau meddwl beirniadol
- posteri academaidd
- ystadegau
- sesiynau trafod
- deall meintiau sampl
- sut i wneud synnwyr o ddeunyddiau darllen gwyddonol.

Yna roedden nhw hefyd wedi ychwanegu gwytnwch.

Mae'r rhaglen HND mewn Rheolaeth Anifeiliaid yn awr yn ei thrydedd flwyddyn o weithdai gwytnwch, ac er bod ymarfer a myfyrio wedi peri adolygiadau i'r fenter, mae'r amseriadau wedi aros yn weddol debyg. Mae gan y myfyrwyr y pum wythnos o hyd, ac mae hyn yn digwydd ar adeg pan mae'r cydberthnasau wedi eu creu, ac y mae modd deall y carfannau. Fodd bynnag, dim ond i'r garfan o fyfyrwyr ar lefel 4 y mae'r sesiynau hyn yn cael eu darparu, gyda'r garfan lefel 5 yn cynnal dau sesiwn diwtora i ganolbwyntio ar les a gosod nodau. Roedd amseriad y ddarpariaeth yn ystyriaeth fawr wrth roi'r fenter at ei gilydd - er mwyn iddi gael ei derbyn yn dda, mae'n rhaid i'r un sy'n mynd i'w darparu fod wedi creu lle diogel a bod yn ymwybodol pwy maen nhw'n gofyn iddynt fyfyrio ar adfyd; mae bod yn sensitif i'r unigolyn yn hanfodol bob amser.

## Yr effaith ar y myfyrwyr

Dyma rywfaint o'r adborth a gafwyd gan garfan 2021:

> ‘Gall cyfnod o addysg fod yn amser llawn straen. Pan fydd rhywun yn dysgu'r sgiliau a'r technegau i chi a fydd yn gadael i chi ymdopi'n well a chymryd rheolaeth, bydd yn rhywbeth y gallwch ei gymryd gyda chi am oes.’

> ‘Gallwch ddysgu'r holl sgiliau astudio yn y byd ond os byddwch yn cael trafferth gyda gwytnwch a rheoli straen, yna efallai y byddwch yn dal i gael trafferth rhoi unrhyw beth arall ar waith.’

Roedd hi'n ymddangos bod pobl yn gwerthfawrogi'r fenter, roedd y myfyrwyr oedd yn cymryd rhan ynddi'n gwneud hynny gyda phwrpas, ar eu cyflymder eu hunain, roedden nhw'n chwilio beth oedd yn berthnasol iddyn nhw o'r agweddau niferus ac yn rhoi hwnnw yn eu bywydau pob dydd. Cafwyd twf, ac aeth yr holl fyfyrwyr a gymerodd ran yn y fenter hon ymlaen naill ai i wneud ail flwyddyn o astudiaeth neu i gymhwyso gyda'r dyfarniad yr oeddent yn astudio tuag ato.

## Yr effaith ar yr awdur

Mae sgil effaith annisgwyl y dysgu proffesiynol a wnaed, a arweiniodd at geisio gwytnwch i'r carfannau o fyfyrwyr, hefyd wedi galluogi twf i'r unigolion sy'n darparu'r fenter - cylch cyflawn sy'n sicr o helpu i feithrin twf yn y dyfodol i'r carfannau nesaf. Mae syniadau ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi derbyn ystyriaeth yn barod - er enghraifft, gwneud holiaduron cyn ac ar ôl pob ymyriad gan obeithio asesu'r pellter a deithiwyd a theilwra'r adnoddau'n well ar gyfer y garfan, gyda'r nod o gefnogi ymgysylltiad a buddsoddiad yn y broses.

## Yr effaith ar y sefydliad ehangach

Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf gwelwyd y fenter yn cael ei harddangos yn rhan o gynhadledd addysg uwch fewnol yng Ngholeg Cambria, lle daeth academyddion ar draws yr adrannau at ei gilydd i arddangos y gweithgareddau ymchwil ysgolheigaidd. Cafodd y drafodaeth dderbyniad da o fewn yr adran astudiaethau busnes, a chawsent eu hysbrydoli i gyflwyno eu gweithdy gwytnwch eu hunain yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Yna cafwyd tasg lle'r oedd y myfyrwyr yn rhoi meddyliau myfyriol i mewn i'r 'bwced straen' i gydnabod yr effaith, a daeth hwn yn derm a fathwyd ac a ddefnyddiwyd drwy gydol y flwyddyn. Roedd yn derm oedd yn caniatáu i sgyrsiau gael eu cychwyn mewn ffordd hamddenol am fod y myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus yn estyn am yr arwydd hwn i'r tiwtor eu bod eisiau cymorth ychwanegol. Roedd y tîm yn ystyried yr effaith yn un cadarnhaol ac mae ganddynt gynlluniau i barhau i'w ddefnyddio yn y blynyddoedd academaidd sy'n dod.

## Casgliad

Mae sefydliadau addysgol bob amser yn gwthio am fesurau llwyddiant mewn cyrhaeddiad graddau uchel, ond efallai bod angen i ni hefyd gydnabod llwyddiant fel camau bach o risg bersonol i feithrin twf, neu naid i mewn i fyfyrdod er mwyn cyfoethogi hunan-ymwybyddiaeth. Mae angen cymorth ar fyfyrwyr gyda'r seiliau sydd eu hangen i fod yn wydn yn y byd newidiol a chyflym sydd ohoni. Mae gwytnwch, fel bywyd ei hun, yn gofyn dycnwch a dewrder. Mae addysgu gwytnwch yn golygu bod y myfyrwyr sy'n mynd i mewn i'r system addysg o amrywiaeth eang o gefndiroedd yn gallu cael cyfle mwy cyfartal o lwyddo. Ei gynhwysiant yw ei bwysigrwydd, ac mae hynny'n sgil bywyd ac nid sgil astudio yn unig.

## Cyfeiriadau


Duckworth, A (2017) GRIT; *Why passion and resilience are the secrets to success*. Llundain: Vermilion

El Saheli-Elhage, R (2021) Access to students and parents and levels of preparedness of educators during the COVID-19 emergency transition to e-learning, *International Journal on Studies in Education*: 3(2), tud. 61-69

Lipson, S K; Lattie, E G; ac Eisenberg, D (2018) 'Increased Rates of Mental Health Service Utilization by U.S. College Students: 10-Year Population-Level Trends 2007-2017', *Psychiatric Services*: 70(1), tud. 60-63

McKinlay, A R; May, T; Dawes, J; Fancourt, D; a Burton, A (2022) ''You're just there, alone in your room with your thoughts': A qualitative study about the impact of lockdown among young people during the COVID-19 pandemic', *BMJ open*: 12(2)

Naik, G L; Deshpande, M; Shivananda, D C; Ajey, C P; a Manjunath Patel, G C (2021) 'Online Teaching and Learning of Higher Education in India during COVID-19 Emergency Lockdown', *Pedagogical Research*: 6(1)

Santomauro, D F; Herrera, A M M; Shadid, J; Zheng, P; Ashbaugh, C; Pigott, D M; Abbafati, C; Adolph, C; Amlag, J O; Aravkin, A Y; a Bang-Jensen, B L (2021) 'Global prevalence and burden of depressive and anxiety disorders in 204 countries and territories in 2020 due to the COVID-19 pandemic', *The Lancet*: 398(10312), tud. 1700-1712

Online.Yale.edu (2018) 'The Science of Well-Being, An online educational course', sydd ar gael ar: https://online.yale.edu/courses/science-well-being

# Astudiaeth achos 10: Gwallau yn y cynllun: Defnyddio deallusrwydd artiffisial i wella dysgu myfyrwyr

**Pete Dunford, Coleg Penybont**

## Y cyd-destun a'r cefndir

Wrth weithio mewn cyd-destun colegol yn Ne Cymru, gwelodd yr awdur yn aml mewn gwersi bioleg lefelau addysg bellach ac addysg uwch mewn Gofal Anifeiliaid, bod hyder isel yn y pwnc, dealltwriaeth wael a gallu gwan i adalw gwybodaeth yn her sylweddol i lawer o fyfyrwyr. Er ei fod wedi ceisio amrywiaeth o ddulliau i wella'r rhain mewn gwersi, nododd bod y myfyrwyr yn ymddangos fel petaent yn methu deall cysyniadau craidd yn llawn neu eu cofio nhw am gyfnodau estynedig. Yn rhan o brosiect ymchwil-weithredu, dechreuodd archwilio a allai technolegau deallusrwydd artiffisial (DA) cynhyrchiol newydd gynnig llwybr i brofiadau dysgu mwy gweithredol a diddorol a allai wella hyn.

Wedi'i ysbrydoli gan Dan Fitzpatrick et al (2023) 'The AI Classroom', a'i bwyslais ar baratoi myfyrwyr i gydweithio â systemau DA, cychwynnodd ar daith ddysgu broffesiynol i weddnewid ei ddull addysgu. Cafodd adnoddau fel hyn, ynghyd â gweithdai yn DigiFest Jisc a thrafodaethau gyda'i Rwydwaith Dysgu Personol, yr effaith o atgyfnerthu ei gred bod gan y technolegau deallusrwydd artiffisial y potensial i chwyldroi'r ffordd y mae myfyrwyr yn dysgu. Gan ei fod wedi sylwi bod ffocws arbennig offer DA ar yr athro yn hytrach na'r dysgwr, cafodd ei gymell ymhellach i ddod o hyd i ffyrdd o rymuso myfyrwyr yn uniongyrchol. Roedd yn benderfynol ei fod am feithrin dysgwyr sy'n barod ar gyfer DA, felly dechreuodd fynd ati i chwilio am ffyrdd o integreiddio strategaethau myfyriwr-ganolog, fel datblygu promptiau a fyddai'n meithrin cydweithrediad ag offer DA heb fod angen sgiliau lefel uwch.

Penderfynodd arbrofi gyda Google Gemini (sef Bard gynt) oherwydd byddai ei integreiddiad esmwyth yng nghyfrifon y myfyrwyr ar Google Workspace yn darparu cefndir cyfarwydd ar gyfer yr ymarfer. Cyn y gweithgaredd ei hun, cymerwyd gofal i drafod gyda'r myfyrwyr sut i ddefnyddio DA mewn ffordd foesegol a chyfrifol, a chafwyd gwers benodol yn archwilio beth yw DA, a'i fuddion a'i gyfyngiadau posibl, a'r canllawiau ar gyfer ei ddefnyddio'n briodol. Datblygwyd y canllawiau hyn ar sail canllawiau'r Cyd-gyngor Cymwysterau ('[AI use in Assessments: Protecting the Integrity of Qualifications guidance]') a'r Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (Jisc) ('[Artificial intelligence - Jisc]'). Am ei fod yn gwybod mai un o risgiau arwyddocaol systemau DA yw eu tueddiadau cynhenid a'u potensial i roi gwybodaeth ffug, penderfynodd yr awdur wneud meddwl beirniadol yn elfen allweddol o'r gweithgaredd yr oedd yn ei gynllunio. Ar sail ei ddealltwriaeth o DA, creodd brompt penodol y byddai'r myfyrwyr yn ei roi i mewn i Gemini mewn gwers. Roedd y prompt yn gofyn i Gemini greu'r ddelwedd o ddysgwr wedi drysu sydd angen cymorth ar bwnc o ddewis y myfyriwr. Yna byddai'n ceisio darparu esboniad ond byddai'n cynnwys gwybodaeth anghywir a chamddealltwriaeth yn fwriadol fel bod y myfyrwyr wedyn yn ceisio adnabod y gwallau a'u cywiro.


Myfyrwyr yn gweithio yng Ngholeg Penybont

## Effaith y fenter ar y myfyrwyr

Roedd y fenter yn ffordd lwyddiannus o gyflwyno myfyrwyr i'r posibilrwydd y gallai deallusrwydd artiffisial eu cefnogi nhw ac arweiniodd hynny at drafodaethau bywiog yn y dosbarth, yn enwedig am ei arddull ieithyddol unigryw, yn cynnwys cymysgedd annisgwyl o sgript Saesneg a Tsieinëeg mewn un achos. Er gwaethaf hynny, dywedodd y myfyrwyr bod esboniadau'r system DA yn ddefnyddiol ar y cyfan, ond nododd eu bod yn aml yn cael anhawster dod o hyd i wallau llai amlwg. Gan adeiladu ar yr adborth hwn, crëwyd ail brompt oedd yn troi'r system DA yn gwisfeistr, gan alluogi i'r myfyrwyr chwarae gêm o dri gwirionedd a dau gelwydd yn lle gêm y myfyriwr wedi drysu. Roedd hyn o gymorth mawr i wella'r broblem benodol hon.

Yn y sylwadau a roddodd y myfyrwyr, gan ddefnyddio graddfa o 1 i 10, gwelwyd cynnydd gweddol dda yn eu hyder am ddeall y pwnc gyda'r ddau brompt. Gwelwyd gwelliant o 8.3% gyda phrompt y myfyriwr wedi drysu tra bo'r gwelliant gyda'r tri gwirionedd/dau gelwydd yn 9.4% ar gyfartaledd. Fodd bynnag, nid oedd lefel y ddealltwriaeth a'r adalw wedi ei fesur yn uniongyrchol y tro hwn. Cafodd y ddau brompt dderbyniad da, er bod y rhan fwyaf o'r myfyrwyr wedi dweud bod yn well ganddynt brompt y tri gwirionedd/dau gelwydd ar y cyfan, ac wedi ei gael yn fwy diddorol, rhyngweithiol a hwyliog ei ddefnyddio, am eu bod yn hoffi fformat y gêm gyda'i strwythur clir. Roedden nhw'n teimlo ei bod hi'n haws adnabod gwallau, yn enwedig gyda phynciau nad oedden nhw'n siŵr iawn amdanynt. Roedd y myfyrwyr hynny yr oedd yn well ganddynt y prompt dysgwr wedi drysu yn hoffi arddull fwy sgyrsiol yr ymateb DA gan nodi, er enghraifft:

> ‘Mae'n gwneud i chi feddwl yn fanylach am holl wahanol feysydd y pwnc oherwydd nid yw'n rhoi llawer o arweiniad.’

Teimlwyd y byddai'n arbennig o addas ar gyfer:

> ‘adolygu ar gyfer arholiadau a'ch profi eich hun ar bwnc yr ydych yn weddol hyderus ynddo yn barod.’

Roedd adborth gan y myfyrwyr yn dangos bod y gweithgareddau hyn yn sbarduno eu diddordeb mewn archwilio ymhellach sut y gallai DA gefnogi eu dysgu, gyda 75% ohonynt yn dweud eu bod yn bwriadu defnyddio promptiau yr oedd y darlithydd yn eu darparu eto yn rhan o'u hadolygiad. Dywedodd 88% o'r myfyrwyr eu bod yn awyddus i archwilio gwahanol offer DA drostyn nhw eu hunain yn awr ac yn teimlo eu bod wedi datblygu hyder i allu ysgrifennu eu promptiau eu hunain, wedi iddynt ddefnyddio'r rhai oedd wedi eu hysgrifennu'n barod.

## Yr effaith ar yr awdur

Mae'r holl brofiad wedi cadarnhau'r ffordd y mae awdur yr astudiaeth achos hon yn meddwl am ddysgu ac addysgu; gan gadarnhau ei ddealltwriaeth bod ymgysylltiad y myfyrwyr a'u dysgu'n mynd law yn llaw. Mae'n teimlo bod y fenter yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i athrawon modern fod yn Ddylunwyr Profiadol sy'n barod i arbrofi ac ailadrodd am weithgareddau sydd wedi eu seilio ar adborth gan y dysgwyr, er mwyn helpu i ddatblygu hyder yn y pwnc ochr yn ochr â datblygu sgiliau ehangach. Mae wedi gweld y potensial ar gyfer y ffordd y gallai DA cynhyrchiol fod yn erfyn defnyddiol i gynorthwyo arddulliau gwersi mwy traddodiadol. Roedd y myfyrwyr wedi llwyr fwynhau defnyddio'r system DA ac roedden nhw'n awyddus i'w ddefnyddio'n annibynnol gyda'u promptiau eu hunain a chymryd perchnogaeth dros ddysgu'r dechnoleg drostynt eu hunain.

Ei gamau uniongyrchol nesaf, ar sail yr adborth gan y myfyrwyr, yw ysgrifennu pecyn cymorth o bromptiau y gellir eu teilwra y gallant eu defnyddio'n annibynnol i wella eu dysgu a'u hadolygiad. Mae hefyd yn bwriadu defnyddio'r pecyn cymorth hwn y flwyddyn nesaf fel gweithgaredd strwythuredig i fesur gallu i adalw pwnc cyn ac ar ôl defnyddio DA a phenderfynu ar ei effeithiolrwydd fel teclyn i gynorthwyo dysgu. Mae'n teimlo, er mwyn parhau i ddatblygu fel athro, bod angen iddo ddal ymlaen i arloesi, gan fyfyrio ar adborth ac ailadrodd. Ei nod yw grymuso myfyrwyr i fod yn ddefnyddwyr beirniadol o DA cynhyrchiol gan hefyd groesawu ei botensial fel erfyn dysgu. Nid yn unig y bydd hyn yn eu helpu i ddeall bioleg, bydd hefyd yn adeiladu sgiliau cryf mewn llythrennedd gwybodaeth ar gyfer byd sy'n llawn o DA cynyddol ddatblygedig.

*Ysgrifennwyd fersiwn drafft gwreiddiol yr astudiaeth achos hon gyda chymorth Google Gemini Advanced ar 15 a 16 Chwefror 2024.*

## Cyfeiriadau

Fitzpatrick, D; Fox, A a Weinstein, B (2023) '*The AI Classroom: the ultimate guide to artificial intelligence in education*', TeacherGoals Publishing: Indianapolis

# Astudiaeth achos 11: Gweld y ffordd ymlaen: Effaith tracio cynnydd a darparu esiamplau o gyflwyno darpariaeth hyblyg

Elizabeth Jones, Prifysgol De Cymru


## Y cyd-destun a'r cefndir

Dechreuodd Prifysgol De Cymru dreialu dulliau darparu hyblyg yn rhan o'i Chynllun Strategol 2030 Prifysgol De Cymru (Prifysgol De Cymru, 2019). Nod cyffredinol y prosiect yw datblygu dull dysgu hyblyg, neu ystod o fodelau a fydd yn sicrhau'r hygyrchedd mwyaf, yr atyniad gorau yn y farchnad, a'r profiad gorau, am fod dull dysgu ac addysgu mwy hyblyg yn cynnig cyfleoedd i wneud Prifysgol De Cymru'n fwy cynhwysol ac amrywiol. Trwy gydol haf 2022, cydweithiodd cynrychiolwyr o gymuned staff a myfyrwyr Prifysgol De Cymru gydag Advance HE i lunio cyfres o 'Egwyddorion Dysgu Hyblyg' Prifysgol De Cymru sydd wedi eu teilwra'n benodol i'r sefydliad. Yna aeth y gweithgor ar ddulliau darparu hyblyg ati i ddatblygu'r egwyddorion hyn i greu'r modiwl peilot cyntaf, gan esbonio sut y gallai'r egwyddorion hyn edrych pan oeddent ar waith.

Archwiliodd y modiwl peilot cyntaf ddull dysgu cyfunol tair rhan, lle mae ei ddarpariaeth ar y campws wedi ei gyflenwi gyda gweithgareddau dysgu anghydamserol gyda chymorth digidol, cyn ac ar ôl pob sesiwn ar y campws (gwelwch Ffigur 1 isod). Un darn allweddol o hyn oedd cefnogi staff i ddefnyddio'r rhith-amgylchedd dysgu'n fwy effeithiol a gweithredu dull o gynllunio dysgu gweithredol yn cynnwys darparu gwell naratif, arweiniad a sgaffaldio i ddysgwyr. Roedd hyn yn golygu sicrhau bod gwybodaeth gyd-destunol yn cael ei darparu o amgylch y gweithgareddau dysgu dan arweiniad ar-lein, llwybr cynnydd clir drwy'r cynnwys, a defnyddio offer tracio cynnydd y rhith-amgylchedd dysgu.

Yn ystod haf 2023, cyflwynwyd 13 o fodiwlau peilot i'r rhaglen, cyn eu darparu yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24. Dewiswyd ystod o fodiwlau ar draws lefelau 3 i 6 ar y cyd â chynrychiolwyr o bob un o dair cyfadran y Brifysgol. Dechreuodd tîm pob modiwl peilot gyda gweithdy cyd-gynllunio hanner diwrnod i grwpiau o rhwng 2 a 4 tîm modiwl peilot. Gwahoddwyd tîm pob modiwl peilot i fynychu, ac roedd caniatâd iddynt ddod â chynrychiolwyr y myfyrwyr, arweinwyr y cyrsiau a phenaethiaid y meysydd astudio os oedden nhw'n dymuno. Anfonodd rhai timau un cynrychiolydd yn unig, a daeth eraill â grŵp o academyddion, myfyrwyr a rheolwyr. Roedd cynrychiolydd yn bresennol hefyd o bob tîm gwasanaethau proffesiynol a oedd yn cynnig cymorth i'r modiwl peilot hwn. Roedd y gweithdy mewn dwy ran. Roedd rhan 1 yn esbonio'r dull darparu hyblyg tair rhan yr oedd y Brifysgol yn anelu amdano, ac yn cyflwyno'r cynigion i gefnogi gan y gwasanaethau proffesiynol. Roedd rhan 2 yn ail gynllun o fodiwl wedi ei hwyluso gan ddefnyddio fersiwn wedi'i addasu o'r dull 'ABC' (Coleg Prifysgol Llundain, 2015).


**Ffigur 1: Y dull darparu hyblyg tair rhan**




## Y dull 'ABC'


Mae'r dull 'ABC' yn weithdy cynllunio dysgu hynod o ryngweithiol sy'n caniatáu i grwpiau bychain ddychmygu ac adeiladu darpariaeth eu modiwlau/cyrsiau'n gyflym gan ddefnyddio byrddau stori wedi eu hadeiladu o gardiau mathau o weithgareddau. Mae'r cardiau mathau o weithgareddau wedi eu seilio ar waith yr Athro Diana Laurillard ac maen nhw'n rhannu'r holl weithgareddau dysgu yn chwe math: caffael, cydweithio, trafod, ymchwilio, ymarfer a chynhyrchu. Mae gan bob cerdyn mathau o ddysgu ddiffiniad a rhestr o weithgareddau sampl y gellid eu dosbarthu fel y math yma. Mae'r cyfranogwyr yn defnyddio'r cardiau i nodi'r gweithgareddau y bydd y dysgwyr yn cymryd rhan ynddynt yn ystod sesiwn unigol, y modiwl cyfan neu hyd yn oed gwrs cyfan. Dewiswyd y dull hwn oherwydd gwelwyd ei fod yn addas iawn i'r gofynion ar gyfer ail-ddylunio cyrsiau er mwyn cael dull dysgu mwy cyfunol. Defnyddiwyd fframwaith sylfaenol y dull 'ABC' gyda rhai newidiadau bach i'r cyflwyniad i ddangos sut y gellid ail-ddylunio'r dull darparu blaenorol i gyfateb â'r dull tair rhan a gostwng faint o ddysgu 'caffael' oedd yn digwydd yn ystod sesiynau sydd wedi eu hamserlennu ar y campws.

**Ffigur 2: Y dull 'ABC'**




Cyflwynwyd cardiau ychwanegol, y gallai cyfranogwyr eu defnyddio i gynllunio eu modiwlau. Roedd y cardiau hyn yn becynnau wedi eu creu'n arbennig gan yr amrywiol wasanaethau cymorth (er enghraifft, Sgiliau Astudio, Cyflogadwyedd, Llyfrgell) oedd yn nodi gwahanol gynigion y gellid eu hymgorffori mewn cynlluniau darparu addysg, megis gweithdy cynllunio asesiadau neu sesiwn ar sgiliau llythrennedd gwybodaeth. Roedd cynrychiolwyr o bob tîm gwasanaethau proffesiynol yn bresennol hefyd yn y gweithdy ac roedden nhw'n cael eu cylchdroi drwy dîm pob modiwl peilot yn ystod y sesiwn cynllunio er mwyn caniatáu i academyddion gael rhagor o wybodaeth a dysgu sut y gallai'r cynigion gael eu hintegreiddio i mewn i'w darpariaeth.

**Ffigur 3: Cerdyn cymorth mathemateg**



## Yr heriau a wynebwyd

Sialens fawr y gweithdai oedd yr amser oedd yn angenrheidiol a gallu'r staff i fynychu. Ni allai mwyafrif y timau fynychu, a doedd hi ddim yn bosibl gwneud y broses ail-ddylunio lawn hebddyn nhw. Roedd pedwar tîm modiwl a chynrychiolwyr y myfyrwyr a thimau'r gwasanaethau proffesiynol yn creu amgylchedd yr oedd llawer o bobl yn ei gael yn llethol.

Ar ôl yr ailadroddiad cyntaf felly, cafodd y nifer o gynrychiolwyr o bob gwasanaeth proffesiynol ei ostwng i un ac roedd pob gweithdy wedi ei gyfyngu i ddau neu dri thîm modiwl, yn dibynnu ar nifer y cyfranogwyr y bydden nhw'n eu cymryd gyda nhw. Hyd yn oed wedyn, roedd maint y wybodaeth a'r syniadau yn aml yn ormod i gydweithwyr academaidd. Roedden nhw'n sôn am fod yn gyffrous a chadarnhaol am y syniadau yr oedden nhw'n eu derbyn, ond yn difaru nad oedd ganddyn nhw fwy o amser i'w neilltuo i gymryd rhan yn y broses ail-ddylunio.

Hefyd, roedd timau'r modiwlau peilot yn treialu Blackboard Ultra, sef fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r rhith-amgylchedd dysgu. Mae'n debyg bod y cyfranogwyr yn fwy nerfus am hyn nag am y newidiadau yn y ddarpariaeth. Ar ôl y gweithdy, cynigiwyd cymorth unigol i bob cyfranogwr mewn modiwl peilot, ar amser oedd yn gyfleus iddyn nhw, i gyflwyno'r profiad 'Ultra' ac i sicrhau bod eu modiwl yn symud i'r fersiwn newydd. Derbyniwyd yr hyfforddiant gan o leiaf un aelod o dîm pob modiwl peilot a gallent ofyn am ragor o gymorth os oeddent ei angen.

## Y camau nesaf

Ar ôl y gweithdy a chymorth Blackboard Ultra, gofynnwyd i'r cyfranogwyr yn y modiwlau peilot gwblhau bwrdd stori neu amserlen o'u modiwl wedi'i ail-ddylunio i helpu'r tîm darparu hyblyg i gynllunio unrhyw gymorth angenrheidiol a sicrhau bod y timau academaidd ar y trywydd cywir. Hysbysebwyd diweddariadau rheolaidd a chynigion am ragor o gymorth drwy gydol yr haf. Sicrhawyd bod gwefan gydag adnoddau a deunyddiau cymorth am y dull darparu hyblyg, y broses o gynllunio dysgu, y broses 'ABC', a Blackboard Ultra ar gael i'r holl gydweithwyr.

Dim ond un tîm a gwblhaodd gynllun amlinellol llawn yn ystod yr haf ac ni ymatebodd y rhan fwyaf o'r timau eraill i unrhyw rai o'r swyddogion cymorth. Mae'n debyg bod y ffaith nad oedd wedi ei gwblhau y tu allan i gyfyngiadau'r gweithdy'n dangos prysurdeb y bywyd academaidd cyfoes. Mae hefyd yn dangos bod amser y gweithdy'n bwysig i alluogi cydweithwyr i ganolbwyntio ar y broses ddatblygu, er bod hynny am amser byr yn unig.

## Modiwl enghreifftiol

Yr un maes o gymorth a sicrhaodd ymateb oedd y modiwl enghreifftiol. Roedd hwn yn ffug-fodiwl a grëwyd ar Blackboard Ultra gan y tîm Addysg wedi'i Galluogi'n Ddigidol i ddangos sut yr oedd gwahanol nodweddion y system newydd yn edrych pan oedden nhw 'ar waith'. Roedd hefyd yn dangos sut y gellid gosod y dull darparu hyblyg allan ar y rhith-amgylchedd dysgu hwn ar ei newydd wedd. Cafodd y modiwl ei boblogi'n llawn gyda chynnwys dysgu wedi ei drefnu yn y dull darparu tair rhan, roedd myfyrwyr 'ffug' wedi cwblhau rhai o'r gweithgareddau, ac arddangoswyd nodweddion allweddol o gynllunio dulliau dysgu da oedd wedi eu hamlygu yn y gweithdy ac ar y wefan gymorth. Er enghraifft, darparwyd gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer pob eitem yn esbonio pam, pryd a sut i ymdrin â'r amrywiol elfennau; crëwyd taith ddysgu drwy'r cynnwys, gyda chynllun a labelu; a gallai'r myfyrwyr weld eu cynnydd drwy ddefnyddio erfyn tracio.

Nid yw rhoi esiamplau'n gysyniad newydd ond yr hyn oedd yn arwyddocaol oedd agwedd gadarnhaol lwyr yr ymateb i'r enghraifft benodol hon:

> Roedd y modiwl enghreifftiol yn agoriad llygad i mi. O'r pwynt hwnnw ymlaen roeddwn yn deall beth oedd ei angen ac rwyf wedi mwynhau'r broses yn fawr iawn ers hynny.

Roedd yr enghraifft nid yn unig wedi helpu cydweithwyr i ddeall nodweddion Blackboard Ultra, ond roedd hefyd wedi dod â'r dull ei hun yn fyw y tu allan i gyfyngiadau amser penodol a goruchwyliaeth y gweithdy, gan ganiatáu amser i arbrofi a myfyrio. Yn wahanol i gynigion o gymorth cydamserol, roedd y modiwl yn caniatáu i staff roi cynigion byr arno pan oedd hynny'n gyfleus iddyn nhw, ac ymgysylltu â'r cysyniadau mewn ffordd ddilys, gyda chaniatâd llawn y staff i weld, golygu a graddio fel y byddent ar eu modiwlau eu hunain. Roedd y cysyniadau a gyflwynwyd yn y gweithdai a'r deunyddiau cymorth ar-lein yn ymwneud â hygyrchedd, tywys a gweithgareddau sgaffaldio, a rhoddwyd ystyr i bresenoldeb yr athro drwy esiamplau. Yn hollbwysig, roedd y darluniadau hyn wedi eu cysylltu â'r darlun mwy oedd yn rhoi eglurder i'r staff.

Yn aml iawn, pan ddarperir esiamplau, mae llawer o'r cynnwys wedi ei dynnu allan. Weithiau gwneir hyn oherwydd bod hynny'n angenrheidiol, ond fe'i gwneid hefyd er cyfleustra ac i gadw pethau'n fyr. Mae tuedd i ddewis un elfen o rith-amgylchedd dysgu, rhan o fodiwl neu foment o addysgu o'r tu mewn i sesiwn, i ddangos pwyntiau penodol neu i arddangos un erfyn. Ac eto, fel y mae Pilkington (2016, tud. 59) yn ein hatgoffa ni i gyd, un o'r pum rhagdybiaeth allweddol ar gyfer dysgu proffesiynol y darlithwyr yw bod "dysgu proffesiynol yn digwydd mewn sefydliadau ac yn ddibynnol ar sefydliadau, ac yn brosesau ac arferion sydd **o fewn eu cyd-destunau**" (pwyslais yr awdur). Trwy roi'r damcaniaethau a'r egwyddorion addysgeg sy'n ymwneud â darparu hyblyg i mewn i gyd-destun modiwl cyfan, roedd yn caniatáu i gydweithwyr greu cysyniad o'r hyn y byddai'n ei olygu mewn gwirionedd, ac o'r fan honno sut i weddnewid y syniad i weddu i'w cyd-destun eu hunain.

## Effaith y dull darparu hyblyg ar y staff a'r myfyrwyr

Derbyniodd y dull darparu hyblyg a strwythur elfennau ar-lein y modiwlau adborth hynod o gadarnhaol gan y staff, fel a ganlyn:

> Mae'r myfyrwyr yn hoffi'r ffordd y gallant symud ymlaen drwy'r gwaith a'r modiwl. Maen nhw'n hoffi rhoi tic wrth bethau wrth fynd. Maen nhw'n rhagweithiol o ran mynd i mewn i'r modiwl a chwilio am waith.

> Roeddem wedi cyflawni mwy yn yr awr honno nag yr hyn y gallai sesiwn sialc a sgwrs o deirgwaith yr hyd ei wneud.

I'r un graddau, cafodd y myfyrwyr fuddion o'r dull newydd a'r cynllun dysgu newydd. Roedd o gymorth iddyn nhw i deimlo'n drefnus, i weithio drwy'r tasgau a gweld cyfeiriad y teithio'n fwy eglur:

> ‘Rydych chi'n gyfrifol am eich dysgu eich hun, ond mae'n eich annog chi i fod yn fwy parod ar gyfer darlithoedd byw.’

> ‘Roedd yn gwneud cwblhau tasgau'n llai o straen ac roedd hyn yn caniatáu i mi gwblhau'r tasgau hyd eithaf fy ngallu.’

> ‘Roedd yn caniatáu i mi flaenoriaethu pob un o'm tasgau a'm haseiniadau yn hawdd heb bwysau.’

Yn debyg iawn i'r modiwl enghreifftiol, mae'n ymddangos bod y dull darparu hyblyg gyda'i bwyslais ar ddarparu llwybr clir drwy'r dysgu, yn rhoi mwy o hyder i'r myfyrwyr y gallent weld y ffordd ymlaen ar eu taith ddysgu.

## Datblygiadau arfaethedig

Mae peilot mwy wedi ei gynllunio ar gyfer 2024-25 erbyn hyn, lle bydd y tîm Addysg wedi ei Galluogi'n Ddigidol yn gweithio gyda phob un o'r modiwlau lefel 4 ar draws oddeutu chwe chwrs - sef dau gwrs fesul cyfadran. Y gobaith yw y bydd y myfyrwyr, drwy weithredu'r dull ar draws pob modiwl mewn cwrs, yn dod yn fwy cyfarwydd â gweithio i rythm dulliau darparu hyblyg. Mae hyn yn bwysig oherwydd, er bod y myfyrwyr a roddodd adborth yn siarad yn gadarnhaol am werth y dysgu o flaen llaw, roedd myfyrwyr eraill oedd heb ymgysylltu ac a oedd felly'n llai parod neu'n ymddiddori llai yn ystod sesiynau ar y campws. Dylai gosod yr un dull dysgu ar draws eu modiwlau i gyd yn eu blwyddyn gyntaf helpu i greu normal newydd i fyfyrwyr sydd, yn syml, yn dod yn ffordd arferol o ddysgu.

Ar sail yr ymatebion cadarnhaol, y bwriad yw defnyddio arbenigedd a phrofiad y cyfranogwyr yn y modiwlau peilot i arwain gwelliannau i'r modiwl enghreifftiol, a darparu nifer o fodiwlau enghreifftiol i ddangos amrywiaeth o ddulliau pwnc-benodol. Mae'r perthnasedd disgyblaethol hwn yn bwysig wrth roi esiamplau oherwydd ceir pobl bob tro sy'n amau a fyddai dull a ddefnyddir mewn maes astudio arall yn addas i'w maes hwy. Fel y mae Baume a Popovic yn nodi, “gallai datblygiad academaidd fod yn fwy effeithiol a chredadwy os gwneir rhywfaint o waith datblygu ... mewn ffordd sy'n cydnabod dulliau pwnc-benodol sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth” (Baume a Popovic 2016, tud. 303).

Hefyd, bydd y tîm Addysg wedi ei Galluogi'n Ddigidol yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Dysgu i weithredu'r syniad o fodiwl enghreifftiol i'r myfyrwyr. Y bwriad yw creu calendrau enghreifftiol a fideos wedi eu tywys sy'n dangos sut i ymgysylltu mewn modiwl darparu hyblyg, ac sy'n dangos gwahanol ffyrdd o drefnu eu profiadau dysgu. Wrth fyfyrio ar bwysigrwydd gwahaniaethu rhwng meysydd astudio i staff, bydd esiamplau amrywiol yn cael eu darparu, sy'n dangos nid yn unig wahanol feysydd astudio, ond hefyd yn dangos rhywfaint o'r gwahanol sefyllfaoedd bywyd y bydd angen i'r astudiaethau ffitio o'u hamgylch o bosib. Er enghraifft, cyfrifoldebau gofalu, oriau gwaith, amser teithio a theithio i'r gwaith, a newidiadau iechyd - y maent oll yn effeithio ar y ffordd y gall myfyrwyr ymgysylltu â'u dysgu. Bydd y datblygiadau hyn i gyd yn cael eu gwerthuso yn rhan o'r modiwlau peilot parhaus a'r bwriad yw cyflwyno'r dull darparu hyblyg yn ehangach o 2025-26 ymlaen.

## Cyfeiriadau


Baume, D a Popovic, C (golygyddion) (2016) 'Futures for academic development', *Advancing Practice in Academic Development*, Llundain: Routledge

Pilkington, R (2016) 'Supporting Continuing Professional Development (CPD) for lecturers', yn rhan o Baume, D a Popovic, C (golygyddion) (2016) Advancing Practice in *Academic Development*, Llundain: Routledge

Prifysgol De Cymru (2019) Ein Strategaeth, PDC 2030
www.southwales.ac.uk/cy/amdanom-ni/ein-strategaeth/

Young, C a Perovic, N (2015) '*ABC Learning Design Method*', Coleg Prifysgol Llundain https://abc-ld.org

# Astudiaeth achos 12: Hybu llythrennedd adborth ac ymgysylltiad ymhlith myfyrwyr

**Steven Kehoe a Samantha Ellis, Grŵp Llandrillo Menai**

## Y cyd-destun a'r cefndir

> ‘Nid adborth yw adborth a gofiwyd ond na weithredwyd arno’
>
> (Farrington, 2022)

Mae 'llythrennedd' asesiad ac adborth yn hollbwysig i lwyddiant myfyrwyr mewn addysg uwch a gallant helpu dysgwyr i symud eu sylw oddi wrth ganlyniadau'r asesiadau i'r prosesau asesu. Gallant hefyd gefnogi dysgwyr i ddeall ac ymgysylltu ag adborth am asesiadau, sy'n her feunyddiol i sefydliadau addysg uwch, am mai'r ymgysylltiad yn hytrach na'r adborth ei hun yw'r elfen hanfodol i ddysgu'r myfyrwyr (Zhang a Hyland, 2022). Mewn ymateb i hyn, cafwyd digwyddiad datblygiad proffesiynol oedd â'r nod o roi mecanweithiau i staff i wella ymgysylltiad a llythrennedd adborth ymhlith y myfyrwyr. Cafodd hwn ei ddarparu gan gydlynydd y cwricwlwm addysg uwch ac arweinydd y rhaglenni Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Roedd y digwyddiad hwn wedi ei alinio hefyd gyda'r cynllun gwella ansawdd Addysg Uwch mewn Iechyd a Gofal a nododd fod adborth yn faes sydd angen ei ddatblygu ar sail gwerthusiadau o fodiwlau, data'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ('Asesu ac Adborth' - 81.25% yn 2021-22), a phanelau cyswllt staff-myfyrwyr. Mae Grŵp Llandrillo Menai'n darparu addysg uwch i fwy na 1,500 o fyfyrwyr llawn amser a rhan amser mewn lleoliad addysg bellach ar draws campysau yng Ngogledd Cymru.

Ym mis Mehefin 2023, cynhaliwyd y digwyddiad datblygiad proffesiynol i gyfanswm o naw aelod o staff sy'n gyfrifol am addysgu ar raglenni Gradd Sylfaen ar lefelau 4 a 5 a rhaglenni BSc (atodol) ar lefel 6 yn yr adrannau Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Chwaraeon. Hefyd, roedd gan rai aelodau o staff gyfrifoldebau addysgu sylweddol mewn addysg bellach. Roedd y staff i gyd yn ddarlithwyr gydag amrywiaeth o lefelau profiad - yn amrywio o arweinwyr rhaglen sy'n hynod brofiadol i staff newydd gymhwyso sydd o gefndiroedd galwedigaethol ac sy'n addysgu mewn addysg uwch.

Yn dilyn ymlaen o'r digwyddiad i staff, gweinyddwyd ymyriad ar gyfer blwyddyn academaidd 2023-24 gan arweinwyr modiwl, gan dargedu cyfanswm o 56 o fyfyrwyr. At ddibenion yr ymyriad hwn, nid oedd modiwlau gydag asesiadau arholiad, ymarferol neu bortffolio wedi eu cynnwys. Roedd yr ymyriad yn canolbwyntio ar ychwanegu dalen flaen at bob asesiad oedd i gael ei chwblhau gan y myfyrwyr a'i chyflwyno ochr yn ochr â phob asesiad cyflawn - menter oedd yn cael ei defnyddio'n barod gan adran arall ac yn cael ei hystyried yn arfer blaenllaw gan arholwyr allanol. O fewn y ddalen flaen, cynghorwyd y myfyrwyr i nodi elfen o adborth blaenorol, naill ai adborth crynodol neu ffurfiannol, y gweithredwyd arno yn y cyflwyniad cyfredol ac o ble yr oedd yr adborth hwnnw wedi dod. Hefyd, gofynnwyd i fyfyrwyr nodi agwedd o'r asesiad yr oedden nhw eisiau derbyn adborth amdani. Ar sail hynny, gofynnwyd i'r staff roi sylwadau eglur yn yr adborth crynodol oedd wedi eu cysylltu at yr elfennau yn yr adborth y gofynnwyd amdanynt ac a oedd wedi cael eu gweithredu.


**Ffigur 1: Esiampl o ddalen flaen ar gyfer asesiad**

| **Un elfen o adborth a roddwyd ar waith o'r adborth blaenorol**<br>*Yn cyfiawnhau fy nghasgliadau i fod yn eglur yn fy ngwerthusiad beirniadol* | **Ymhle derbyniwyd yr adborth? (cyfeiriwch at asesiad penodol)**<br>*Problemau Cyfredol yn Aseiniad 1* |
|---|---|
| **Yr agwedd o aseiniad yr hoffech adborth penodol amdani**<br>*Fy meddwl beirniadol am yr erthygl ymchwil a adolygwyd* | |

## Yr effaith ar y dysgwyr a'r staff

Yn gyffredinol, allan o 159 o fyfyrwyr, cafwyd cyfradd ymgysylltu o 53% o ran y gyfradd o 'adborth a weithredwyd' a'r 'adborth a geisiwyd' ar dudalen flaen yr asesiad. Gwelwyd y gyfradd ymgysylltu uchaf mewn asesiadau ysgrifenedig (69%) a'r isaf mewn cyflwyniadau/posteri (34%). Cafodd y myfyrwyr eu rhoi naill ai yn y categori ymgysylltiad uchel (n=12) neu yn y categori ymgysylltiad isel (n=10), ar sail eu cyfraddau cwblhau unigol. Roedd y grŵp Ymgysylltiad Uchel yn dangos cynnydd llawer uwch o ran graddau canran o'i gymharu â'r grŵp Ymgysylltiad Isel yn ystod yr ymyriad, er gwaethaf y ffaith bod gan y grŵp Ymgysylltiad Uchel broffil graddio gwell cyn yr ymyriad.

**Ffigur 2: Cymharu'r grwpiau o ran y newid mewn canran o raddau rhwng y rhai cyn yr ymyriad a'r rhai ar ei ôl**



Roedd nifer llawer iawn uwch o fyfyrwyr yn teimlo'n gadarnhaol am yr ymyriad a'i effaith, fel sydd wedi ei grynhoi gan fyfyriwr isod:

> ‘Roedd canfod pa adborth blaenorol yr oeddwn yn ceisio ei ddatblygu ymhob asesiad newydd o gymorth mawr i mi i symud ymlaen ac roeddwn i'n teimlo bod yr adborth yn fwy personol i mi pan ofynnais am adborth am sgiliau academaidd penodol neu ran benodol o'r asesiad. Roedd hyn yn hynod o fuddiol i mi, ac rwy'n falch o ddweud bod hyn wedi ei adlewyrchu yn fy natblygiad, yn enwedig wrth symud o lefel 5 i 6.’

Roedd y staff hefyd yn teimlo bod y sesiwn datblygiad proffesiynol am asesu a rhoi adborth wedi bod yn eithriadol o ddefnyddiol, fel y gwelir yn eu hymatebion isod:

> ‘Llawn gwybodaeth a pherthnasol iawn i addysg uwch. Mae wedi gwneud i mi feddwl bod angen i fy adborth fod yn fwy cytbwys a sut y gellir ei ddefnyddio yn y dyfodol.’

> ‘Mae'r ddalen flaen yn rhoi rhywfaint o ymreolaeth i'r myfyrwyr ac yn eu hannog nhw i ymateb i adborth. Mae wedi agor deialog gyda'r myfyriwr am yr adborth ac wedi symud y ffocws ar eu datblygiad.’

Hefyd, roedd un o'r arholwyr allanol yn canmol y defnydd a wnaed o'r dalennau blaen ‘bwydo ymlaen’.

## Pwyntiau i'w hystyried

Er y gellir ystyried yr ymyriad yn llwyddiant o ran gwella ymgysylltiad ag adborth a deilliannau dysgu'r myfyrwyr, efallai y bydd ymarferwyr eisiau ystyried y pwyntiau a ganlyn wrth weithredu menter o'r fath:

- Efallai y bydd myfyrwyr eisiau rhywfaint o arweiniad am y mathau o gysyniadau/sgiliau academaidd y byddent eisiau derbyn adborth penodol amdanynt, yn enwedig ar lefel 4. Er enghraifft, gallai fod yn llai buddiol i fyfyriwr ofyn am adborth ar 'yr aseiniad cyfan', nag ar eu harddull ysgrifennu academaidd yn unig. Yn yr un modd, byddai adborth ar ysgrifennu beirniadol yn fanteisiol ar lefel 6, yn hytrach nag adborth ar dechnegau rhoi cyfeiriadau.
- Mae'n bwysig trafod gyda myfyrwyr beth yw eu disgwyliadau o ran adborth a defnyddio dalen flaen yr asesiad, gan ganolbwyntio ar y broses ddatblygu yn hytrach na'r canlyniad. Nid yw ymgysylltiad uchel bob amser yn trosi i welliannau mewn graddau.
- Roedd rhai o'r darlithwyr yn fwy rhagweithiol nag eraill o ran atgoffa myfyrwyr i gwblhau pob adran o ddalen flaen yr asesiad. Mae angen gweithio'n fwy cyson fel un tîm cyfan i gefnogi cyfraddau ymgysylltu ac ymlyniad ymhlith rhai o'r myfyrwyr. Dylai darlithwyr adolygu adborth blaenorol fel elfen o'u gweithgareddau dysgu ac addysgu er mwyn cefnogi llythrennedd adborth ymhlith myfyrwyr - yn benodol, gweithdai asesu.
- Dim ond i adborth y maent yn ei ddeall y gall myfyrwyr ymateb, a rhaid i'r adborth hwnnw gael pwyntiau datblygu clir, y gellir eu gweithredu mewn agweddau eraill o asesiadau. Mae hyn gofyn i ddarlithwyr sicrhau nad yw'r pwyntiau hyn yn rhy benodol i asesiad, a'u bod wedi eu dadgodio gan y myfyriwr, drwy drafod yr adborth os yn bosib, a'u bod wedi cytuno ar y camau gweithredu wrth symud ymlaen.

## Cyfeiriadau

Farrington, T (2022) 'Grasping the nettle of feedback literacy and engagement: The action feedback protocol', Advance HE Assessment & Feedback Symposium, Sesiwn 4.2: (mae fideo'r sesiwn ar gael ar YouTube)

Zhang, Z a Hyland, K (2022) 'Fostering engagement with student feedback: An integrated approach', Assess Writing, 51
https://doi.org/10.1016/j.asw.2021.100586

# Astudiaeth achos 13: Cydweithfa Cymru: Rhwydwaith datblygiad proffesiynol

**Steph Tindall, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

## Y cyd-destun a'r cefndir

Yn ystod 2022-23, roedd pob un o'r naw sefydliad addysg uwch yng Nghymru, ynghyd â 12 sefydliad addysg bellach, yn cydweithio ar Brosiect Gwella Cydweithredol QAA Cymru a ariennir gan CCAUC dan y teitl 'Cydweithfa Cymru: Gwella Dysgu ac Addysgu Digidol'. Roedd y prosiect yn cynnwys sefydlu grŵp rhwydwaith, o dan yr enw Cydweithfa Cymru, sy'n canolbwyntio ar ddysgu trochi. Mae amcanion y Rhwydwaith yn cynnwys cynyddu cyfleoedd:

- i adnabod dulliau addysgu cydweithredol effeithiol yn yr amgylchedd dysgu trochi
- i rannu'r ffordd y mae addysg ddigidol yn datblygu fel sector, gan ddefnyddio deallusrwydd ar y cyd
- i ddatblygu'r gweithlu mewn ffordd sy'n effeithio ar ddarpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth addysg uwch rheng flaen.

Amcanion y grŵp mewn perthynas â lledaenu canlyniadau sy'n dod i'r amlwg yw rhannu arferion sy'n rhoi sgiliau i ymarferwyr addysgu ac yn eu hyfforddi a'u cefnogi:

- i gynllunio a darparu dulliau effeithiol o addysgu, dysgu ac asesu mewn amgylchedd dysgu trochi
- i gefnogi dysgwyr i ddysgu gan ddefnyddio platfformau digidol
- i ddefnyddio technolegau i sicrhau gwahaniaethiad, cydraddoldeb, amrywiaeth, hygyrchedd a chynhwysiant.


Cynhaliodd Cydweithfa Cymru ei digwyddiad cyntaf ym mis Mehefin 2023. Roedd yn gofyn bod pawb yn rhannu lle'r oedden nhw a'r hyn roedden nhw'n gweithio arno mewn perthynas â'r gofod dysgu trochi oedd yn datblygu'n gyflym iawn. Ers y digwyddiad llwyddiannus hwnnw, mae'r grŵp wedi canolbwyntio ar sicrhau bod ansawdd y dysgu digidol yn aros yn uchel ar yr agenda dysgu proffesiynol yn y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ac ar gryfhau'r berthynas gydweithredol ymhellach a chyfraniad gwerthfawr y sefydliadau addysg bellach. O dan oruchwyliaeth yr Athro Mirjam Plantinga (PCYDDS) a'r Athro Jacqui Boddington (Prifysgol Metropolitan Caerdydd) ar ran Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu'r Dirprwy Is-Gangellorion, mae Cydweithfa Cymru'n defnyddio arian QAA Cymru, a ddarperir gan CCAUC, ar gyfer prosiectau cydweithredol i barhau i gefnogi gweithwyr proffesiynol ym meysydd addysg uwch ac addysg bellach, gan weithio ym maes datblygu dulliau dysgu trochi yn eu sefydliadau.


## Effaith Cydweithfa Cymru

Er ei bod yn dal yn ifanc, mae Cydweithfa Cymru wedi cael effaith sylweddol yn barod ar draws y sector addysg drydyddol. Mae Dr Huw Williams o Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd yn esbonio sut maen nhw wedi defnyddio rhai o'r gwersi a ddysgwyd:

> "Rydym wedi dysgu gwersi o'r cyfarfodydd a chysylltiadau Cydweithfa Cymru i'w cymryd yn ôl at ein tîm Amgylcheddau Rhithwir Hybrid a Rhyngweithiol (HIVE), sy'n defnyddio'r rhain yn y sefyllfaoedd trochi ac e-ddysgu y maen nhw'n eu creu."

### Deunyddiau addysgu a grëwyd gan Brifysgol Caerdydd



Mae Prifysgol Caerdydd o'r farn fod bod yn rhan o'r Rhwydwaith wedi arwain at wella dysgu'r myfyrwyr meddygol. Mae hyn yn cynnwys esiampl mewn perthynas â dull Kirkpatrick o werthuso efelychiad realiti rhithiol mewn ffug-ystafell adfywio, sydd wedi dangos gwell canlyniadau ar lefelau 1 a 2 o'i gymharu â'r fersiwn a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn flaenorol.

Mae Dr Rebecca Jones, yr Arweinydd Dulliau Addysgu Digidol ym Mhrifysgol Bangor, yn teimlo hefyd bod myfyrwyr wedi ymateb yn dda i ddysgu trochi:

> "Mae myfyrwyr yn fwy ymwybodol o ddisgwyliadau cyflogwyr o ran sgiliau digidol ac, oherwydd hynny, maen nhw ymgysylltu'n weithredol â'r dulliau niferus yr ydym yn eu defnyddio i integreiddio sgiliau digidol yn y cwricwlwm. Mae dysgu trochi yn un esiampl o'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu myfyrwyr gyda dulliau darparu eraill gan hefyd wella sgiliau ein myfyrwyr ar gyfer y dyfodol.

Roedd un o brosiectau niferus Prifysgol Bangor yn archwilio sut y gallai realiti rhithiol gael ei ddefnyddio i archwilio tirweddau, lleoliadau a chynrychioliadau digidol o leoedd a phobl, i ddarparu cyfleoedd i wneud gwaith maes cynhwysol. Yn deillio o ddatblygiadau arloesol oedd yn angenrheidiol oherwydd y pandemig COVID-19, a'r cyfyngiadau a roddwyd o ganlyniad i hynny ar deithio, defnyddiwyd pensetiau realiti rhithiol i archwilio cyrchnodau rhyngwladol. Dyma a ddywedodd un myfyriwr sy'n astudio Daearyddiaeth yn y drydedd flwyddyn am y profiad:

> Mae realiti rhithiol yn ffordd newydd o ddysgu ac yn gwneud y trip rhithwir yn rhyngweithiol ac yn hwyliog. Mae'n andros o hwyl! Rwyf wrth fy modd yn archwilio'r safleoedd mewn ffyrdd newydd nad wyf wedi eu profi o'r blaen.

Mae colegau addysg bellach wedi gweld hefyd bod y cyfle y mae Cydweithfa Cymru'n ei gynnig i gydweithio â sefydliadau addysg uwch yn arbennig o gadarnhaol, fel y mae Leanne Howe, y Rheolwr Dysgu Addysgu a Datblygu Proffesiynol yng Ngholeg Gŵyr, yn esbonio:

> Mae dod ag addysg bellach ac addysg uwch at ei gilydd ym maes Dysgu ac Addysgu'n hanfodol, yn enwedig mewn perthynas â dulliau arloesol a digidol. Yn aml iawn, y sefydliadau addysg uwch (AU) yw'r llwybr cynnydd y mae myfyrwyr yn ei gymryd; felly, mae angen i ni ddeall beth mae sefydliadau AU ei angen ac, i'r un graddau, mae angen i sefydliadau AU ddeall ymhle y mae cyfyngiadau a rhwystrau mewn addysg bellach. Mae dod at ei gilydd yn y ffordd yma'n caniatáu i sgwrs ddigwydd a gall hwyluso cydweithio hefyd; mentrau sy'n gallu rhannu adnoddau a syniadau i wella profiad y dysgwyr. Gallwn sicrhau ein bod yn symud myfyrwyr yn eu blaenau gyda'r sgiliau ac/neu'r ymwybyddiaeth y mae ar sefydliadau AU eu hangen.



Cynhadledd Cydweithfa Cymru

## Gyda'n gilydd yn gryfach

Mae rhwydweithiau cydweithredol a chymunedau ymarfer â ffocws, megis Cydweithfa Cymru, yn fodelau ac adnoddau gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol ac, fel y dangosir yma, maen nhw'n ffordd effeithiol o wella profiad y myfyriwr. Cafodd y dyfyniad isod ei ysgrifennu'n wreiddiol mewn blogiad am Gydweithfa Cymru, ond mae wedi dod yn fantra i'r Rhwydwaith ac mae'n dathlu effaith deialog broffesiynol ac ymarfer cydweithredol ar ddysgu'r myfyrwyr ar draws y sector addysg drydyddol yng Nghymru.

> ‘Rydym ni, Gydweithfa Cymru, yn cydnabod y bydd ein canlyniadau a'n cynhyrchion terfynol yn amrywio, ac rydym hefyd yn cydnabod ein bod mewn cystadleuaeth ddigidol mewn rhai ffyrdd. Fodd bynnag, rydym eisiau teithio gyda'n gilydd ar y daith dysgu trochi, gan rannu â'n gilydd a dysgu oddi wrth ein gilydd, a chyfnewid gwybodaeth, profiad, ac arbenigedd.’

# Atodiad: Y cyfranwyr at yr astudiaethau achos

## Astudiaeth achos 1

**Dr John Deane** yw Deon campws Birmingham Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae'n arweinydd profiadol ym maes strategaeth addysg uwch, gan gynnwys addysg uwch mewn addysg bellach. Mae wedi bod yn adolygwr i QAA ers 15 mlynedd ac mae'n Achredwr/Ymgynghorydd Advance HE, yn ogystal â Phrif Gymrawd Advance HE.

**E-bost**:j.deane@uwtsd.ac.uk

## Astudiaeth achos 2

Mae **Annette Edwards** wedi bod yn Arweinydd Thema Datblygiad Staff Academaidd yn yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu ym Mhrifysgol Aberystwyth ers pum mlynedd, a chyn hynny, roedd hi'n rhan o'r Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd. Enillodd Annette ei TUAAU ym mis Mehefin 2014, a'i statws Uwch Gymrawd yr Academi Addysg Uwch ym mis Chwefror 2016. Am ei bod hi'n Gymraes rugl, mae Annette yn gweithio'n ddwyieithog ar wella datblygiad academaidd ac mae hi hefyd yn rhan o nifer o grwpiau Cymru gyfan yn cynnwys Gwobrau Advance HE am Ragoriaeth Addysgu a Goruchwylio.

**E-bost**:aae@aber.ac.uk

## Astudiaeth achos 3

**Bryony Evett Hackfort** yw Cyfarwyddwr Addysgu, Dysgu ac Addysg Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. Mae Bryony yn hynod o falch o'r sector addysg bellach ac yn teimlo'n angerddol iawn bod angen rhoi mwy o lais iddo. Symudodd Bryony i mewn i arweinyddiaeth y maes dysgu ac addysgu yn 2018 ac mae hi wedi manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i sefydlu cysylltiadau, rhwydweithiau a phrosiectau er mwyn hyrwyddo'r sector addysg bellach ym maes dysgu proffesiynol.

**E-bost**:bryony.evett@colegsirgar.ac.uk

## Astudiaeth achos 4

Mae **Dr Mary Jacob** yn Ddarlithydd mewn Dysgu ac Addysgu yn Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu (Uned DDA) Prifysgol Aberystwyth. Mae hi'n cydlynu'r Dystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch (TUAAU), yn cyfrannu at y cynllun ARCHE i ennill statws Cymrawd Advance HE, ac mae hi'n cydlynu'r Gweithgor DA Cynhyrchiol. Mae hi'n chwilio am ddigwyddiadau ac adnoddau sy'n ddefnyddiol i staff addysgu ac yn eu rhannu nhw drwy'r Crynodeb Wythnosol o Adnoddau ar flog yr Uned DDA.

**E-bost**:mhj@aber.ac.uk
https://x.com/MaryJacobTEL1

## Astudiaeth achos 5

Mae **Helen Griffith** yn hanu o Orllewin Cymru a bu'n addysgu mewn ysgolion uwchradd cyn symud ymlaen i weithio mewn addysg bellach yng Ngholeg Ceredigion. Mae hi wedi mwynhau amrywiaeth o wahanol swyddi rheoli yn y Coleg a hi yn awr yw'r Cyfarwyddwr Dwyieithrwydd yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. Mae'r Gymraeg yn hynod o bwysig iddi a'i chenhadaeth feunyddiol yw sicrhau bod dysgwyr yn cael pob cyfle i ddefnyddio a gwella eu sgiliau iaith.

**E-bost**:griffithh@ceredigion.ac.uk

## Astudiaeth achos 6

Mae **Amy Lewis** yn gweithio fel darlithydd mewn Seicoleg, ac mae ganddi ddiddordeb brwd mewn seicoleg iechyd, dysgu gydol oes, addysg uwch mewn addysg bellach a dwyieithrwydd. Cwblhaodd Amy ei chwrs 'Mynediad' Cymraeg i Oedolion yn 2023, ac mae hi'n astudio ar y cwrs Sylfaen ar hyn o bryd. Yn ddiweddar, mae Amy wedi cymryd rhan mewn cynllun datblygiad staff i wella dulliau o addysgu'n ddwyieithog, ar y cyd ag aelodau eraill o staff Coleg Penybont.

**E-bost**:aslewis@bridgend.ac.uk

## Astudiaeth achos 7

Mae **Dr Owen Thomas** yn aelod o staff y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ers sefydlu'r cynllun 'Cymraeg Gwaith mewn Addysg Bellach' a'r cynllun 'Cymraeg Gwaith mewn Addysg Uwch' yn 2017 o dan nawdd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, mae wedi bod yn Rheolwr y cynllun 'Cymraeg Gwaith mewn Addysg Uwch'. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod staff pob prifysgol yng Nghymru'n gallu gwella eu sgiliau Cymraeg, beth bynnag yw eu lefel.

**E-bost**:o.thomas@colegcymraeg.ac.uk

## Astudiaeth achos 8

**Dr Caroline Hughes** yw'r Deon Cyswllt (Ymgysylltiad Myfyrwyr) yng Nghyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd, Prifysgol Wrecsam, ac mae hi'n arwain adrannau'r Gyfraith, Troseddeg a Phlismona; Gwaith Cymdeithasol a Gofal Plant Therapiwtig; Chwaraeon; ac Iechyd, Lles ac Iechyd Meddwl. Mae Caroline wedi arwain ac wedi bod yn gyd-ymchwilydd ar nifer o astudiaethau ansoddol sydd wedi canolbwyntio ar ddigartrefedd, camfanteisio rhywiol ar blant a chyfiawnder ieuenctid. Caroline yw arweinydd academaidd y prosiect peilot 'Prifysgolion a Chymunedau sy'n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod' (TrACE), mewn partneriaeth â Hyb ACE Cymru.

**E-bost**:caroline.hughes@wrexham.ac.uk

## Astudiaeth achos 9

Mae **Sadie Thackaberry** wedi bod yn addysgu Rheolaeth Anifeiliaid am chwe blynedd mewn coleg. Gydag anogaeth gan ei theulu, daeth yn fyfyriwr aeddfed ar ôl gyrfa fer yn y sector cyfrifon. Mae hi'n teimlo bod troi at addysgu wedi newid ei bywyd er gwell, a gyda'i brwdfrydedd mawr am gefnogi iechyd meddwl ac addysg, mae addysgu gwytnwch i gynorthwyo taith y myfyrwyr tuag at eu targedau llwyddiant personol wedi bod yn uchafbwynt yn gynnar yn ei gyrfa.

**E-bost**:sadie.thackaberry@cambria.ac.uk

## Astudiaeth achos 10

Mae **Pete Dunford** wedi bod yn addysgu bioleg a sgiliau astudio ers 2006. Mae'n dadlau'n frwd dros ddefnyddio technolegau priodol mewn addysg - boed hynny'n erfyn digidol neu bin a phapur - ac mae'n cefnogi addysgwyr eraill i wella eu dealltwriaeth eu hunain o ddull addysgu digidol drwy hyfforddi a mentora. Mae Pete yn defnyddio ei ystafelloedd dosbarth ei hun yn rheolaidd i dreialu amrywiaeth o offer a thechnegau i ddod â safbwynt y dysgwyr i mewn i'r sgyrsiau hynny mewn ffordd ystyrlon.

**E-bost**:pdunford@bridgend.ac.uk

## Astudiaeth achos 11

**Elizabeth Jones** yw'r Pennaeth Addysg wedi'i Galluogi'n Ddigidol ym Mhrifysgol De Cymru. Mae hi wedi bod yn gweithio mewn addysg ddigidol ers 14 mlynedd, a gweithiodd mewn llyfrgelloedd academaidd cyn hynny. Ymysg y meysydd y mae hi'n canolbwyntio arnynt mae deallusrwydd artiffisial ac arferion digidol cynhwysol.

**E-bost**:elizabeth.jones7@southwales.ac.uk

## Astudiaeth achos 12

**Steven Kehoe** yw arweinydd y rhaglenni BSc/FdSc mewn Gwyddor Chwaraeon a Hyfforddi Chwaraeon a'r cwricwla addysg uwch ar gyfer Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Mae ganddo fwy na degawd o brofiad o addysgu yn y sector addysg uwch ac mae ganddo frwdfrydedd angerddol am bob agwedd ar ddysgu ac addysgu. Mae ei ymchwil yn awr ac yn y gorffennol wedi cynnwys effaith dadhydradu ar berfformiad mewn pêl-droed a'r rhyngweithio seicofiolegol mewn blinder corfforol a meddyliol.

**E-bost**:s.kehoe@gllm.ac.uk

Mae **Samantha Ellis** wedi bod yn gweithio yn y sector addysg a gofal plant, ac mae hi wedi bod yn addysgu yn y maes hwn ers 2001. Samantha yw arweinydd y rhaglen Gradd Sylfaen (FdA) mewn Addysg ac Astudiaethau Plentyndod a'r Cydlynydd Ansawdd Cwricwlwm Addysg Uwch yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Mae ei gwaith ymchwil wedi canolbwyntio ar bynciau'n cynnwys theori ag ymarfer sy'n gysylltiedig â datblygiad cynaliadwy a dulliau addysgu creadigol mewn addysg gynnar. Ar hyn o bryd, mae Samantha yn gweithio ar brosiectau sy'n canolbwyntio ar adborth myfyrwyr, gan feithrin amgylchedd dysgu ymgysylltiedig a blaengar drwy ddulliau addysgu arloesol, ac ymrwymiad i ragoriaeth addysgol mewn addysg uwch.

**E-bost**:s.ellis@gllm.ac.uk

## Astudiaeth achos 13

**Steph Tindall** yw'r Pennaeth Datblygiad Sefydliadol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, wedi iddi ymuno â'r Brifysgol ym mis Ionawr 2023. Mae hi wedi ymroddi ei gyrfa i feithrin gwelliant mewn ansawdd a newid trawsffurfiannol drwy ddulliau cydweithredol. Gan dynnu ar ei chefndir fel arweinydd uwch ym maes addysg bellach, rheoli dysgu ac addysgu, ansawdd a datblygiad cyfundrefnol, mae Steph yn canolbwyntio yn ei gwaith proffesiynol ar feithrin amgylchedd cydweithredol ffyniannus ar gyfer twf a rhagoriaeth.

**E-bost**:steph.tindall@uwtsd.ac.uk

Cyhoeddwyd ar Hydref 2024

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
+44 (0)1452 557 000
www.qaa.ac.uk